# Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol: Digwyddiadau Llais y Dysgwr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government







## Adroddiad Adborth

# Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol: Digwyddiadau Llais y Dysgwr

## Adroddiad Adborth

Yn ystod yr haf eleni, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ymgynghoriad cychwynnol sy'n cynnig ymagwedd 'Gwnaed yng Nghymru' tuag at addysg a hyfforddiant ôl-orfodol fel y gall pobl ddysgu a chaffael sgiliau yn haws drwy gydol eu gyrfaoedd.

Fel rhan o'r broses ymgynghori ehangach, cynhaliodd Tîm Marchnata a Chyfathrebu SHELL[1] ddau ddigwyddiad i roi cyfleoedd i ddysgwyr leisio barn ar y ffordd y caiff y gwaith hwn ei ddatblygu

Nod y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr ymgyngoriadau hyn oedd rhoi cyfle i'r ystod ehangaf bosibl o ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol darparwyr dysgu ystyried eu safbwyntiau am Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yng Nghymru a'r diwygiadau arfaethedig yn fanwl. Gan fod y dechneg samplu yn bwrpasol, a bod y dulliau ymchwil a dadansoddi yn ansoddol, ni fyddai'n briodol cyffredinoli'r canfyddiadau i bob dysgwr a grŵp darparwr yng Nghymru, ac ni ellir eu hystyried yn hollgynhwyfawr. Fodd bynnag, bu'r dulliau a ddefnyddiwyd yn fodd i'r ymgynghoriad gynhyrchu naratif ansoddol cyfoethog, dirnadaethau defnyddiol a gwybodaeth werthfawr, ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd ran.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r adborth a gasglwyd o'r digwyddiadau i'w fwydo i mewn i'r broses ymgynghori.[2]

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:


**Enw:** Suzanne Stephens
**Is-adran:** Cyfathrebu a Marchnata SHELL
**Cyfeiriad:** Llywodraeth Cymru, Tŷ'r Afon, Ffordd Bedwas, Bedwas, Caerffili, CF83 8WT
**E-bost:** suzanne.stephens@llyw.cymru


[1] Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru

[2] Barn y rhai a fu'n bresennol yn y digwyddiadau sydd yn y ddogfen hon, yn hytrach na barn Llywodraeth Cymru. Cafodd unrhyw dybiaethau a luniwyd eu llunio'n ddidwyll gan awdur yr adroddiad er mwyn cyflwyno canlyniadau mewn fformat clir (yn seiliedig ar y dadansoddiad o'r data meintiol a gasglwyd fel rhan o'r ddau ddigwyddiad).



© Hawlfraint y Goron 2017 | WG33609 | ISBN (Digidol): 978-1-78903-001-3

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | | |
| | Crynodeb gweithredol | 4-5 |
| | | |
| 1. | Cyflwyniad | 6-8 |
| | | |
| 2. | Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol | 9-11 |
| | | |
| 3. | Diogelu buddiannau dysgwyr Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol | 12-14 |
| | | |
| 4. | Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran  eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr | 15-18 |
| | | |
| 5. | Y Gymraeg mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol | 19-21 |
| | | |
| 6. | Sesiwn adborth gan y gynulleidfa yn y digwyddiadau | 22-23 |
| | | |
| 7. | Gwerthuso'r digwyddiadau a phwyntiau olaf mewn perthynas â'r ymgynghoriad | 24 |
| | | |
| | **Atodiadau** | |
| | 1. Detholiad o ffotograffau o'r digwyddiadau | 25-27 |
| | 2. Canlyniadau arolygon barn y gynulleidfa | 28-32 |
| | 3. Adborth ysgrifenedig llawn ar thema: *ehangu mynediad a chyfranogiad mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol* | 33-55 |
| | 4. Adborth ysgrifenedig llawn ar thema: *diogelu buddiannau dysgwyr Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol* | 56-72 |
| | 5. Adborth ysgrifenedig llawn ar thema: *helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr* | 73-91 |
| | 6. Adborth ysgrifenedig llawn ar thema: *Y Gymraeg mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol* | 92-106 |
| | 7. Trawsgrifiadau llawn o sesiynau adborth y gynulleidfa yn y digwyddiadau | 107-113 |
| | 8. Sylwadau llawn mae'r rhai a fu'n bresennol am eu bwydo i mewn i'r ymgynghoriad (*a gasglwyd drwy ffurflenni gwerthuso'r digwyddiad)* | 114-121 |

# Crynodeb gweithredol

Fel rhan o'r broses o ymgynghori ar ddiwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, cynhaliwyd dau ddigwyddiad penodol gan Dîm Marchnata a Chyfathrebu SHELL er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr leisio barn. Cynhaliwyd y digwyddiadau yn Neganwy ar 4 Hydref 2017 ac yng Nghaerdydd ar 12 Hydref 2017. Cymerodd 214 o bobl ran yn y digwyddiadau, gan gynnwys tua 165 o ddysgwyr. Cafwyd cynrychiolaeth o ddysgwyr o bob un o'r gwahanol sectorau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yn y ddau ddigwyddiad.

Cafodd y digwyddiadau eu cynllunio i fod yn rhyngweithiol ac roeddent yn cynnwys sgyrsiau bwrdd wedi'u hwyluso yn seiliedig ar themâu a bennwyd ymlaen llaw a oedd yn ymwneud â'r ymgynghoriad. Dewiswyd y themâu ar gyfer y digwyddiad ar y sail eu bod yn fwy uniongyrchol berthnasol i ddysgwyr er mwyn iddynt deimlo eu bod yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y broses ac roeddent yn cynnwys: (i) ehangu mynediad a chyfranogiad (ii) diogelu buddiannau dysgwyr, (iii) helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwyr, a (iv) y Gymraeg.

Mae'r pwyntiau a godwyd ar gyfer pob thema wedi'u crynhoi mewn adrannau dilynol o'r adroddiad hwn.

Un o'r pynciau a godwyd amlaf yn y cylchoedd gwahanol o sgyrsiau oedd ***gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ddysgwyr***. Mynegodd llawer o ddysgwyr for angen mwy o gymorth yn y maes hwn, gan ddangos nad oeddent yn ymwybodol o'r gwasanaethau presennol a sut i gael gafael arnynt. Mae dysgwyr am ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt ac maent am gael sicrwydd bod y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad a roddir iddynt yn ddiduedd ac yn cael eu rhoi er eu budd pennaf. Cododd mater diffyg parch cydradd rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol yn aml yn y sgyrsiau. Soniwyd am 'amseriad' gyda dysgwyr iau yn awyddus i gael gwybodaeth ac arweiniad yn llawer cynt nag y maent yn eu cael ar hyn o bryd. 'Unigoledig' oedd disgrifydd arall, gyda dysgwyr yn ceisio cymorth i ddatblygu llwybrau gyrfa personol a chyngor ac arweiniad wedi'u teilwra, sy'n briodol i'w hanghenion. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi pwynt cyswllt canolog a chymorth ar y we, ond maent yn pwysleisio bod mynediad at gymorth wyneb yn wyneb hefyd yn hollbwysig.

Cyfeiriwyd at ***arian*** ac ***ofn dyled*** fel y prif rwystrau a oedd yn atal dysgwyr rhag mynd i'r brifysgol. Codwyd y ffaith bod yn rhaid cyfaddawdu rhwng lleoliad a chost cludiant hefyd mewn trafodaethau ynglŷn â mathau eraill o ddysgu ôl-16 ac mewn perthynas ag effaith penderfyniadau i gau cyrsiau neu gampysau ar ddysgwyr. Tynnodd dysgwyr sylw at bwysigrwydd cymorth ariannol ynghyd â gwybodaeth gynnar am gyllid i fyfyrwyr er mwyn eu helpu i gynllunio.

Gall dysgwyr gael anhawster i barhau â'u cwrs neu eu dysgu pellach am amryw resymau ac mae'n bwysig eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth priodol o dan yr amgylchiadau hyn. Yn gyffredinol, cymysg fu'r farn ar y ***systemau cymorth gan staff*** sydd ar gael ar hyn o bryd, ac awgrymwyd bod ***angen gwella*** lefel ac ansawdd y cymorth.

O ran y Gymraeg, cafwyd consensws cyffredinol ymhlith dysgwyr ei bod yn bwysig ond roedd ***rhai yn amau a ddylai'r Gymraeg fod yn orfodol yn yr ysgol***, gan nodi y dylai fod yn ddewis. Cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r cyfleoedd a gafodd dysgwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ond y farn gyffredinol yw ***nad oes digon o gyfleoedd i ddysgu drwy'r Gymraeg***.

Roedd ple cyffredinol gan ddysgwyr sy'n oedolion yn y digwyddiadau bod eu hanghenion yn cael eu cydnabod fel rhan o'r broses ddiwygio. Trafodwyd pwysigrwydd cyrsiau mynediad a dysgu cymunedol, ynghyd ag angen i sicrhau systemau cymorth priodol i hwyluso ymgysylltu a chofrestru (e.e. cyfleusterau crèche a hyblygrwydd o ran oriau a darpariaeth).

Cofnododd y gwerthusiad o'r digwyddiadau fod y rhai a fu'n bresennol yn teimlo eu bod yn hynod ddefnyddiol ac yn rhoi llwyfan rhyngweithiol, pleserus i gymryd rhan mewn trafodaethau mewn modd cadarnhaol. Roedd pobl yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o ddysgwyr ym mhob digwyddiad a greodd amrywiaeth o safbwyntiau diddorol a sgyrsiau cynhyrchiol. Roedd pobl hefyd yn parchu'r ffaith i'r digwyddiad gael ei gynnal yn ddwyieithog.

Mae'n amlwg o'r gwerthusiad a'r adborth terfynol bod dysgwyr ac eraill a fu'n bresennol yn gwerthfawrogi bod yn rhan o'r ymgynghoriad yn fawr iawn a'u bod am barhau i gymryd rhan ym mhob cam o'r broses. Bydd yn bwysig dangos sut mae Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar yr adborth wrth iddi lunio a datblygu'r diwygiadau a'r Comisiwn newydd yn y dyfodol.

# 1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd y digwyddiad llais y dysgwr cyntaf yng Ngwesty'r Cei yn Neganwy ar 4 Hydref 2017. Daeth tua 105 o bobl i'r digwyddiad hwn, gan gynnwys tua 80 o ddysgwyr a 25 o weithwyr proffesiynol.

Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad yn Arena Motorpoint yng Nghaerdydd ar 12 Hydref 2017. Bu 109 o bobl yn bresennol, gan gynnwys tua 85 o ddysgwyr a 24 o weithwyr proffesiynol.

Mae detholiad o ffotograffau a dynnwyd yn y ddau ddigwyddiad wedi'i gynnwys fel ***Atodiad 1***.

Cafodd y digwyddiadau eu cynllunio i fod yn rhyngweithiol ac yn symbylol, gan ddefnyddio dyfeisiau pleidleisio i fesur canfyddiadau, symbyliadau clywedol a thrafodaethau bwrdd wedi'u hwyluso. Defnyddiwyd cyflwynydd i dywys y gynulleidfa drwy'r gweithrediadau[3]. Cynhaliwyd y digwyddiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a chafodd pobl gyfle i sgwrsio yn eu dewis iaith.

Cafodd cwestiynau a phynciau sgwrs eu pennu ymlaen llaw a'u datblygu yn unol â themâu'r ymgynghoriad er mwyn helpu i gael adborth i mewn i'r broses ehangach. Cyflwynwyd yr un cynnwys yn y ddau ddigwyddiad gyda'r nod o gofnodi llais cyffredinol cryfach mewn perthynas â phynciau sgwrs perthnasol.

Crëwyd nifer o fideos i gefnogi mewnbwn y digwyddiadau. Roedd y rhain yn cynnwys fideo cyflwyniadol i helpu i esbonio i ddysgwyr beth yw ystyr y term Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol a pham bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal, yn ogystal â phedwar fideo â thema. Crëwyd yr olaf ar ffurf 'vox-pop' a oedd yn casglu barn dysgwyr gwirioneddol ar themâu'r ymgynghoriad.

Gellir gweld y fideos drwy ddilyn y dolenni canlynol:

- **Fideo Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol wedi'i animeiddio** – *Saesneg*
  https://www.youtube.com/watch?v=hVAs6RlbkrY

- **Fideo Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol wedi'i animeiddio** – *Cymraeg*
  https://www.youtube.com/watch?v=jaDjY9V3Dyc

[3] Gyda diolch i Liam Elton, Dyanmix, am gyflwyno'r ddau ddigwyddiad.

- **Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol:**
  https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A19543688/document/versions/published

- **Diogelu buddiannau dysgwyr Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol:**
  https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A19543830/document/versions/published

- **Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr:**
  https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A19544098/document/versions/published

- **Y Gymraeg mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol:**
  https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A19544303/document/versions/published

Yn ystod y digwyddiadau, defnyddiwyd y dyfeisiau pleidleisio fel 'polau gwelltyn' i gasglu barn gychwynnol pobl ar y cwestiynau a godwyd. Gellir gweld canlyniadau llawn y sesiynau pleidleisio hyn yn ***Atodiad 2.***

Defnyddiwyd ysgrifenyddion i gefnogi'r cylchoedd o sgyrsiau wedi'u hwyluso a chofnodi'r prif bwyntiau a godwyd mewn trafodaethau. Cafodd holl nodiadau'r ysgrifenyddion eu teipio ar ôl y digwyddiad ac yna'u dadansoddi er mwyn canfod themâu. Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn wedi'u cynnwys fel atodiadau ategol ac maent wedi'u cyfeirnodi yn unol â'r crynodeb o themâu a gyflwynir dros yr ychydig dudalennau nesaf o'r adroddiad hwn.

Gyda diolch i bawb a fu'n bresennol ac a roddodd fewnbwn gwerthfawr; gan gynnwys dysgwyr sy'n oedolion a ddaeth yn eu rhinwedd eu hunain ac eraill a oedd yn cynrychioli'r canlynol:

- Acorn Training
- ACT
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd
- Dysgu Oedolion Cymru (Bangor, Canolfan Fusnes Conwy, Clwb Pêl-droed Llandudno yn y Gymuned)
- Airbus
- Prifysgol Bangor – Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Ysgol Uwchradd Bedwas
- Rhwydwaith Rhieni Caerffili
- Cambrian Training

- Prifysgol Caerdydd
- Coleg Caerdydd a’r Fro
- Canolfan Dysgu Bro Ceredigion
- CITB Cymru
- Coleg Cambria
- Coleg Gwent
- ColegauCymru
- Clwstwr Dwyrain Cymunedau yn Gyntaf (Casnewydd)
- Gwasanaeth Ieuenctid Conwy
- Canolfan Gweithredu Dysgu Glynebwy
- Prifysgol Glyndŵr
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- ITEC Training Solutions
- Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
- Gwybodeg GIG Cymru
- North Wales Training
- People Plus
- Ysgol Uwchradd Prestatyn
- Ysgol Gyfun Radur
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Uwchradd y Rhyl
- Prifysgol Abertawe
- Ysgol Esgob Llandaf
- Ysgol Tonyrefail
- Ysgol Bryn Gwalia
- Ysgol Tryfan
- Ysgol Uwchradd Bodedern

# 2. Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol

## 2.1 Canlyniadau pleidleisio

Yn y bleidlais, gofynnwyd i bawb nodi i ba raddau roeddent yn cytuno â'r datganiad canlynol:
"*Mae rhwystrau sy'n bodoli sy'n atal rhai dysgwyr rhag mynd i brifysgol*".

Yn y digwyddiad yn Neganwy, cytunodd 91% o ddysgwyr â'r datganiad[4]. Roedd y canlyniadau yn debyg yn y digwyddiad yng Nghaerdydd gyda chyfanswm o 86% o ddysgwyr yn pleidleisio'n gadarnhaol[4].

## 2.2 Adborth o'r sgyrsiau bwrdd

Rhoddir yr adborth a gofnodwyd gan yr ysgrifenyddion fel rhan o'r cylch hwn o sgyrsiau bwrdd yn ***Atodiad 3***. Amlinellir isod grynodeb o'r themâu a ddaeth i'r amlwg:

### 2.2.1 Rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag mynd i brifysgol

***Arian*** ac ***ofn dyled*** oedd y rhwystrau a grybwyllwyd amlaf, o bell ffordd, sy'n atal dysgwyr rhag mynd i brifysgol. Soniwyd hefyd am ***ofynion mynediad*** ynghyd â ***phrosesau gwneud cais*** (gyda'r 'datganiad personol' yn enwedig yn anodd). Nodwyd ***lleoliad***, ***cludiant*** a ***phellter*** fel problemau: cyfeiriwyd at argaeledd darpariaeth leol a rhwystrau o ran cost os oedd angen symud oddi cartref.

Nodwyd ***cyfrifoldebau gofalu*** a ***theuluol***, gyda dysgwyr yn cael anhawster i gael gafael ar gymorth gofal plant neu opsiynau hyblyg er mwyn cydbwyso eu hymrwymiadau gwaith, teulu a dysgu. Trafodwyd hefyd amrywiaeth o amgylchiadau personol neu ddemograffeg sy'n creu rhwystrau, megis ***salwch***, ***anabledd*** ac ***anghenion dysgu ychwanegol***; ynghyd ag ***iaith*** a ***chofnod dysgu blaenorol*** unigolyn (e.e. presenoldeb neu reoli ymddygiad).

Roedd dysgwyr sy'n oedolion yn teimlo y gall ***oedran*** fod yn rhwystr mewn sawl ffordd, gan gyfyngu ar fynediad at gyfleoedd, cyllid a chael cymorth priodol. Codwyd ***diffyg hyder*** hefyd fel problem i oedolion a dysgwyr iau fel ei gilydd; roedd y cyntaf yn esbonio y gall

[4] Pleidleisio naill ai '*cytuno'n gryf*' neu '*cytuno*' yn y bleidlais.

fod yn anodd dechrau addysg ffurfiol unwaith eto yn ddiweddarach mewn bywyd; roedd y llall yn sôn bod rhai dysgwyr yn cael anhawster i symud ymlaen i'r lefel dysgu nesaf o ganlyniad, neu sy'n amharod i wneud cais i brifysgol Rhydychen neu brifysgol Caergrawnt.

Soniwyd am ***ragolygon cyflogaeth*** mewn sgyrsiau, gyda dysgwyr yn rhoi'r adborth nad yw gradd yn gwarantu swydd a bod hyn yn wrthanogaeth i fuddsoddi amser ac arian mewn addysg prifysgol.

Yn ddiddorol ddigon, o ran ***canfyddiadau***, cofnodwyd sylw o'r drafodaeth gyda dysgwyr Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn y digwyddiad yn Neganwy fod plant yn teimlo ei bod yn anodd i bobl fynd i'r brifysgol.[5]

### 2.2.2 Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn sectorau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol eraill

Mewn perthynas ag ehangu mynediad a chyfranogiad mewn sectorau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol eraill, yr hyn sy'n achos pryder mwyaf i ddysgwyr yw ***ymwybyddiaeth o opsiynau*** ynghyd â'r ***wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad*** ynglŷn â gyrfaoedd a roddir. Dywedodd nifer o fyfyrwyr nad oeddent yn gwybod ble i fynd am gyngor mewn gwirionedd a'i bod yn anodd iddynt gael gafael ar wybodaeth. Roedd rhai yn teimlo bod ysgolion ond yn hyrwyddo llwybr y brifysgol ac nad yw opsiynau eraill yn cael eu hegluro i ddysgwyr – gyda'r enghraifft "***Mae prentisiaethau yn cael eu tanbrisio mewn ysgolion***" yn cael ei chrybwyll.

***Parch cydradd rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol*** oedd un o'r themâu a gododd mewn sgyrsiau. Er enghraifft, mewn perthynas â phrentisiaethau soniodd rhai myfyrwyr fod stigma nad yw prentisiaethau cystal â mynd i'r brifysgol.

Mae dylanwadau eraill yn cynnwys ***pwysau gan y teulu neu gyfoedion*** mewn perthynas â dewisiadau ôl-16. Tynnodd dysgwyr sylw at y pwysau gan rieni i ddewis llwybr y brifysgol neu esboniwyd bod mynd ymlaen i'r chweched dosbarth yn haws am fod cyfoedion yn gwneud yr un peth.

---

[5] Myfyrwyr o Ysgol Bryn Gwalia sydd wedi cymryd rhan ym mhrosiect Byd Gwaith a gyflwynwyd ar y cyd â Phrifysgol Bangor drwy Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru

### 2.2.3 Goresgyn rhwystrau i fynediad a chyfranogiad ym mhob sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol

Mae dysgwyr am gael ***gwell gwybodaeth, cyngor ac arweiniad*** i'w helpu i ddeall gwahanol opsiynau a'u derbyn. Awgrymwyd y dylid cyfeirio at opsiynau ar gam cynharach a bod angen sicrhau eu bod yn gallu cael cyngor cyson a chlir. Maent hefyd am gael ***gwybodaeth gynnar am gyllid i fyfyrwyr*** er mwyn helpu i gynllunio, ac mae angen cydnabod bod ***cymorth ariannol*** yn bwysig er mwyn annog myfyrwyr i gymryd rhan mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol.

Trafodwyd ***cymorth cyffredinol*** hefyd gyda dysgwyr yn gwerthfawrogi arweiniad personol; yn enwedig i helpu i bontio'n well â'r brifysgol, rhywbeth yr oedd rhai yn teimlo y gallai fod yn ddigon i godi ofn.

Awgrymodd dysgwyr amrywiaeth o fesurau eraill i helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau a drafodwyd yn gynharach, gan gynnwys: darparu ***cyfleusterau crèche*** ar gampysau colegau; ***profiad gwaith*** i helpu i lywio penderfyniadau; ***diwrnodau agored / ymweliadau*** â phrifysgolion **cymorth gyda chyfweliadau**, a chymorth gyda **chludiant**.

Dywedwyd bod **cyrsiau mynediad** a **dysgu cymunedol** yn bwysig hefyd, yn enwedig i ennyn diddordeb dysgwyr sy'n oedolion; helpu i feithrin hyder a hwyluso camu ymlaen.

Yn olaf, codwyd materion ynglŷn â ***hygyrchedd***, gyda dysgwyr yn cyfeirio at yr angen i gynnig gwell cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu a mwy o gymorth ar gyfer iechyd meddwl.

# 3. Diogelu buddiannau dysgwyr Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol

## 3.1 Canlyniadau pleidleisio

Yn y bleidlais, gofynnwyd i bawb nodi i ba raddau roeddent yn cytuno â'r datganiad canlynol:
*"Mae angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer amddiffyn dysgwyr sy'n astudio â darparwyr Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yng Nghymru".*

Yn y digwyddiad yn Neganwy, cytunodd 48% o ddysgwyr â'r datganiad hwn[6], ond dim ond nifer ychydig yn llai o ddysgwyr (40%) a bleidleisiodd 'heb benderfynu'. Yn y digwyddiad yng Nghaerdydd, cytunodd mwyafrif mwy helaeth o ddysgwyr â'r datganiad (cyfanswm o 68% o blaid[6]), gydag ychydig dros chwarter y dysgwyr yn pleidleisio 'heb benderfynu'.

## 3.2 Adborth o'r sgyrsiau bwrdd

Rhoddir yr adborth a gofnodwyd gan yr ysgrifenyddion fel rhan o'r cylch hwn o sgyrsiau bwrdd yn ***Atodiad 4***. Amlinellir isod grynodeb o'r themâu a ddaeth i'r amlwg:

### 3.2.1 Rhesymau pam y gall dysgwyr gael anhawster i barhau â'u cwrs neu ddysgu pellach / hyfforddiant

***Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar lwybrau*** oedd y pynciau a gododd dro ar ôl tro ar gyfer y cylch hwn o sgyrsiau. Soniodd dysgwyr am adael cyrsiau neu beidio â symud ymlaen gyda'u hastudiaethau mewn gwahanol sefyllfaoedd oherwydd diffyg gwybodaeth ac arweiniad, neu wybodaeth ac arweiniad gwael.

Nodwyd bod ***rhaglen gynefino briodol ar gyfer cyrsiau*** yn hollbwysig i gadw dysgwyr a rhoi gwell profiad iddynt. Nododd dysgwyr hŷn awydd bod eu rhaglenni cynefino yn cael eu teilwra'n briodol yn ôl eu hanghenion gwahanol.

I ddysgwyr ag ***anableddau, cyflyrau iechyd a / neu anghenion dysgu ychwanegol***, tynnwyd sylw at bwysigrwydd cwnsela a chymorth ychwanegol. Soniwyd bod systemau cymorth wyneb yn wyneb hefyd yn fuddiol i fyfyrwyr a oedd yn wynebu problemau tai, er mwyn rhoi cymorth os na allent fynychu'r lleoliad dysgu.

---

[6] Cyfanswm nifer y dysgwyr a bleidleisiodd naill ai '*cytuno'n gryf*' neu '*cytuno*' yn y bleidlais.

Nodwyd ***pwysau*** fel rhesymau pam y gall dysgwyr gael anawsterau, gan gynnwys ***terfynau amser, llwythi gwaith astudio*** ac ***arholiadau***, yn ogystal â phwysau o ddydd i ddydd (e.e. gweithio a gofalu).
Gall ymdopi â newid achosi problemau i rai dysgwyr, yn enwedig ***newid cwrs, tiwtor neu leoliad campws***. Gall tarfu o'r fath arwain at nifer o broblemau sy'n peri i ddysgwyr adael eu hastudiaethau.

Roedd ffactorau eraill a nodwyd gan ddysgwyr yn cynnwys ***anawsterau i symud ymlaen i'r lefel nesaf o astudio***, ***diffyg hyder*** i symud ymlaen, neu ***ddewis cwrs er cyfleustra yn unig***, yn hytrach na'r un a ddymunir fwyaf (cymhelliant).

### 3.2.2 System cymorth staff i ddysgwyr

Yn gyffredinol, cymysg fu barn dysgwyr ar systemau cymorth gan staff sydd ar gael (athrawon, tiwtoriaid, darlithwyr ac ati).

Roedd y rhan fwyaf o'r ***sylwadau yn gadarnhaol***, o fwyafrif bach, gyda dysgwyr yn rhoi gwerth ar elfennau o gymorth megis ***un i un, cymorth o bell, hyblygrwydd*** a ***hygyrchedd***.

Roedd ***sylwadau negyddol*** yn canolbwyntio ar ***gymorth annigonol i fyfyrwyr yn yr ysgol, agosatrwydd athrawon***, a'r **diffyg pwyslais canfyddedig a roddir ar les myfyrwyr**.

Nodwyd nifer o ***sylwadau cymysg*** gan ddysgwyr. Roedd y rhain yn ymwneud â'r ***angen am fwy o gymorth, cymorth personol a / neu amseriad y cymorth*** (gan sicrhau ei fod yn cael ei dderbyn pan fo'i angen).

Nododd rhai dysgwyr nad oedd angen iddynt gael cymorth hyd yma.

Nodwyd sylw olaf am y '*system TGAU*' yn hyrwyddo '*dibyniaeth ar staff yn hytrach na hunanastudio*'.

### 3.2.3 Rhwystrau i gael gafael ar gymorth

Wrth drafod rhwystrau i gael gafael ar gymorth, ychydig o bwyntiau a godwyd gan ddysgwyr; roeddent yn canolbwyntio'n bennaf ar y ffaith ***nad oeddent yn siŵr ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael***.

Dim ond dau rwystr arall a nodwyd. Y cyntaf oedd ***oedran*** – gyda sylw y gallai hyn fod yn rhwystr i gael ***cymorth ar gyfer cludiant a gofal plant***. Hefyd, ***nid*** yw'r ***cymorth*** sydd ar gael ***bob amser wedi'i hyrwyddo'n dda***.

Roedd yr ail sylw yn ymwneud â ***chau Cymunedau yn Gyntaf*** a'r effaith y bydd hynny'n ei chael ar fynediad dysgwyr at gyrsiau, cyllid a chredydau amser.

### 3.2.4 Gwella trefniadau i ddiogelu a chefnogi dysgwyr

Mynegodd dysgwyr sawl syniad ynglŷn â sut i wella'r trefniadau presennol, gan gynnwys y canlynol:

***Gwella lefel y cymorth sydd ar gael***, yn enwedig o ran ***gwella mynediad at gymorth un i un***. At hynny, sicrhau y caiff y ***cymorth sydd ar gael ei gyfleu'n well***, ac y gall dysgwyr a rhieni gael ***gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd***. Nododd rhai dysgwyr hefyd fod gan y llywodraeth rôl i'w chwarae i ***wella safonau athrawon o ran arweiniad a chymorth***.

Soniwyd bod ***dull unigol o ddysgu*** yn bwysig ac y dylai ***cymorth i ddysgwyr gael ei lunio gyda dysgwyr***.

Soniwyd hefyd am warantu ***cyllid dibynadwy a digonol i ddarparwyr***, ynghyd â mwy o gymorth ariannol i fyfyrwyr, yn enwedig o ran ***cyllid ar gyfer cludiant*** er mwyn iddynt allu parhau â chyrsiau a / neu deithio i leoliadau gwaith.

Cyfeiriodd dysgwyr hefyd at ddymuniad i weld eu ***horiau dysgu*** yn cael eu ***sicrhau*** gyda '***hawl i fyfyrwyr gwblhau eu cwrs***'. Roeddent hefyd yn teimlo y dylid darparu ***darpariaeth amgen*** a ***defnyddio technoleg*** hyd yr eithaf.

Codwyd mater ***ei gwneud yn haws i drosglwyddo rhwng cyrsiau*** mewn trafodaethau, yn ogystal â rhoi ***opsiynau i oedi astudio*** er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ganolbwyntio ar rywbeth arall a dychwelyd at ddysgu yn ddiweddarach.

Ymhlith yr awgrymiadau eraill roedd ***gwell cysylltiadau rhwng sefydliadau*** er mwyn sicrhau dull gweithredu mewn partneriaeth a gwell cyfathrebu rhwng ysgolion a sefydliadau addysg uwch. Cyfeiriodd dysgwyr hefyd at ***werth cyrsiau mynediad a rhagflas / lleoliadau*** er mwyn helpu i bontio a / neu ddysgu ar lefel uwch.

Roedd dysgwyr yn teimlo mai '***gwaith y llywodraeth yw diogelu pobl wrth ddysgu***' ac y dylai Llywodraeth Cymru / y Comisiwn newydd gamu i mewn.

# 4. Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr

## 4.1 Canlyniadau pleidleisio

Yn y bleidlais, gofynnwyd i bawb nodi i ba raddau roeddent yn cytuno â'r datganiad canlynol:
*"Dylai'r Comisiwn newydd chwarae rhan yn y gwaith o helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau da o ran pa gwrs neu ddarparwyr dysgu i'w ddewis".*

Roedd canlyniadau'r bleidlais ar gyfer y datganiad hwn yn debyg ar gyfer y ddau ddigwyddiad, gyda thua 80% o ddysgwyr yn pleidleisio'n gadarnhaol.[7]

## 4.2 Adborth o'r sgyrsiau bwrdd

Rhoddir yr adborth a gofnodwyd gan yr ysgrifenyddion fel rhan o'r cylch hwn o sgyrsiau bwrdd yn ***Atodiad 5***. Amlinellir isod grynodeb o'r themâu a ddaeth i'r amlwg:

### 4.2.1 Cyngor ar yrfaoedd mewn ysgolion

Unwaith eto, cymysg fu'r farn mewn trafodaethau ar y thema hon. Dywedodd sylwadau cadarnhaol fod ***cyngor ar yrfaoedd*** yn ***ddefnyddiol iawn*** ac yn agor drysau i gyfleoedd eraill. Roedd ***rhaglen Byd Gwaith*** yn cael ***ei pharchu'n fawr***, sy'n helpu pobl ifanc i nodi cyfleoedd swyddi sy'n cyd-fynd â diddordebau a phethau sy'n ennyn eu brwdfrydedd o oedran ifanc iawn.

Roedd sylwadau negyddol yn canolbwyntio ar ***safonau cyngor ar yrfaoedd a'r ffaith bod dewisiadau*** yn ***amrywio'n ormodol***. Soniodd rhai dysgwyr fod yn rhaid iddynt wneud eu hymchwil eu hunain i ofynion mynediad i'r brifysgol, cyrsiau neu waith, neu soniwyd am gyngor a oedd tywys dysgwyr i gyfeiriad gwahanol i ble roeddent am fynd.

### 4.2.2 Opsiynau, newid cyrsiau a symud ymlaen

[7] Cyfanswm nifer y dysgwyr a bleidleisiodd naill ai 'cytuno'n gryf' neu 'cytuno': 80% yn Neganwy, ac 81% yng Nghaerdydd.

Cafwyd nifer o sylwadau yn y maes hwn.

***Yn yr ysgol***, soniodd dysgwyr fod angen llai o ***ddyblygu cyrsiau*** ar yr un lefel a'r un pynciau yn yr un ardal. Soniwyd am ***brentisiaethau*** unwaith eto gyda dysgwyr yn dweud ***nad oeddent yn cael gwybod*** am y rhain yn yr ysgol.
Mynegodd sawl dysgwr ymdeimlad o ***bwysau*** o ran ***dewis opsiynau***. Dywedodd rhai unigolion ei bod yn anodd gwneud penderfyniad ynglŷn â'r hyn rydych am ei wneud am weddill eich oes ar oedran mor ifanc (16 oed). Mae dysgwyr yn ***chwilio am gymorth a chyngor*** yn hyn o beth er mwyn llywio eu penderfyniadau.

Ymhlith y sylwadau negyddol am ***newid cyrsiau*** roedd sgil-effaith ***gorfod dal i fyny***, a'r ffaith nad oedd unrhyw ***gyfeiriadau i dywys pobl sy'n ystyried newid cwrs***.

### 4.2.3 Gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddysgwyr ôl-16

Gwnaed sylw bod ***diffyg cyngor ar yrfaoedd ar ôl addysg bellach***; [ac] ***y dylai dysgu gydol oes olygu hynny!***

Nodwyd hefyd brofiad gwael canfyddedg ***drwy'r ganolfan gwaith*** o un sgwrs bwrdd, gyda barn bod ***dysgwyr*** yn eu ***hannog i beidio â dilyn cyrsiau am fod hynny'n eu hatal rhag chwilio am swydd***.

### 4.2.4 Mesurau a allai helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da

Soniwyd am y defnydd o ***ddiwrnodau agored***, ***digwyddiadau*** a ***chyrsiau rhagflas*** fel ffyrdd da o roi gwybodaeth i ddysgwyr am bynciau a darpar sefydliadau. Trafodwyd ***ysgolion haf*** hefyd gyda dysgwyr yn dweud y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyhoeddusrwydd am y rhain yn well.

Roedd ***profiad gwaith*** yn amlwg yn cael ei werthfawrogi gan ddysgwyr. Roedd rhai yn gofyn pam nad oedd cronfa ddata Gyrfa Cymru yn gweithredu mwyach, am eu bod yn ***ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyfleodd*** eu hunain. Roedd dysgwyr hefyd yn teimlo nad oedd ***wythnos yn ddigon hir*** ac y dylai fod mwy o amser ar gael ar gyfer profiad gwaith.

Dywedodd dysgwyr yr hoffent gael ***rhagor o wybodaeth am ddilyniant gyrfa, cyflog a ffordd o fyw*** gwahanol lwybrau, ynghyd â ***gwell ymgysylltu gan gyflogwyr***. At hynny, soniodd un bwrdd o ddysgwyr am ba mor ddefnyddiol yw ***modelau rôl / mentoriaid*** wrth ddod i mewn i amgylchedd penodol. Nodwyd bod cymorth i ddatblygu ***sgiliau bywyd*** a ***sgiliau meddal*** yn fuddiol hefyd.

Cafwyd sawl sylw ynglŷn â'r dymuniad i gael ***gwefan ganolog*** er mwyn helpu dysgwyr i benderfynu ar opsiynau a llwybrau gyrfa. Mae rhai dysgwyr yn dal i gael anhawster i ddod o hyd i wybodaeth eu hunain ac argymhellwyd ***mwy o hysbysebu*** i gyfeirio unigolion yn briodol.

Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ***ymgysylltu â dysgwyr hŷn***, a nodwyd un safbwynt diddorol mewn un drafodaeth yn y digwyddiad yng Nghaerdydd - '*Mae'n teimlo fel na chaniateir i chi gael addysg os ydych yn hŷn*'.

### 4.2.5 Pwy ddylai roi cymorth?

Yn unol â chanlyniadau'r bleidlais, dangosodd sylwadau o sgyrsiau bwrdd fod dysgwyr, ***yn gyffredinol***, yn teimlo mai ***Llywodraeth Cymru / y Comisiwn newydd*** ddylai chwarae rôl er mwyn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau am gyrsiau a darparwyr. Yn benodol, roedd sylwadau yn ymwneud â'r angen am gorff i arwain er mwyn gwella cyngor ar yrfaoedd a chyrsiau drwy sicrhau bod strwythurau priodol ar waith. Fodd bynnag, dywedwyd y dylai'r ***Comisiwn barhau i fod yn wrthrychol*** er mwyn iddo feithrin hyder ac ymddiriedaeth. Roedd sylw gan un bwrdd yn y digwyddiad yn Neganwy yn ymwneud â phryderon nad yw'r Comisiwn yn y sefyllfa orau, gyda phryderon ynglŷn â'i allu i fod yn ddiduedd.

Cymysg fu'r atebion eraill mewn perthynas â'r cwestiwn ac roeddent yn cynnwys ***Gyrfa Cymru, cyfoedion, anogwyr dysgu,*** a ***theulu***. O ran ysgolion, nododd y rhan fwyaf o'r sylwadau bryder ynglŷn â ***thueddfryd***.

### 4.2.6 Argymhellion ynglŷn â darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

Cododd nifer o argymhellion allweddol o drafodaethau ynglŷn â darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.

Nid yw'n syndod, efallai, o ystyried y sylwadau cynharach, mai ***diduedd*** oedd un o'r disgrifyddion allweddol. Mae dysgwyr am ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt ac maent am gael sicrwydd bod y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad a roddir iddynt yn ***ddiduedd*** ac er eu budd pennaf. Soniwyd hefyd am ***amseriad***, gyda dysgwyr yn chwilio am wybodaeth ac arweiniad yn llawer cynt nag y maent yn eu cael ar hyn o bryd.

***Unigoledig*** oedd un o'r disgrifyddion eraill. Esboniodd dysgwyr am awydd i gael cymorth i ddatblygu llwybrau gyrfa personol a chyngor ac arweiniad wedi'u teilwra, sy'n briodol i'w hanghenion.

Gofynnodd un bwrdd o ddysgwyr am ***ddull safonol*** gyda ***phwynt cyswllt canolog*** – gan nodi bod rhaglenni ar wahân ond bod angen yr un broses gydag '*un corff o wybodaeth*'. Trafododd bwrdd arall o ddysgwyr fanteision ***dull lleol*** gyda mynediad at berson lleol sy'n meddu ar '*wybodaeth am yr ardal* [a] *darparwyr*'.

Soniwyd hefyd am fynediad at ***gymorth wyneb yn wyneb*** gan rai dysgwyr gan nad ydynt yn '*cael atebion ar-lein bob amser*'.

# 5. Y Gymraeg mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol

## 5.1 Canlyniadau pleidleisio

Yn y bleidlais, gofynnwyd i bawb nodi i ba raddau roeddent yn cytuno â'r datganiad canlynol:
*"Yng Nghymru, mae cyfle cyfartal i bobl ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg".*

Ar gyfer y datganiad hwn, gwelwyd tuedd wahanol yng nghanlyniadau'r bleidlais rhwng y ddau ddigwyddiad. Yn Neganwy, roedd 58% o ddysgwyr yn teimlo nad oedd cyfle cyfartal i ddysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.[8] Ond roedd ychydig dros chwarter y dysgwyr yn y gynulleidfa (28%) yn fodlon, i bob golwg, ar y cyfle cyfartal a oedd ar gael.[9]

Yn y digwyddiad yng Nghaerdydd, roedd rhaniad eithaf cyfartal rhwng cytuno ac anghytuno; gyda 40% o ddysgwyr yn anfodlon ar y cyfle cyfartal a oedd ar gael[8], o gymharu â 37% a oedd yn arddel barn i'r gwrthwyneb[9]. Roedd bron chwarter y dysgwyr yn y digwyddiad hwn (23%) heb benderfynu yn eu barn.

## 5.2 Adborth o'r sgyrsiau bwrdd

Rhoddir yr adborth a gofnodwyd gan yr ysgrifenyddion fel rhan o'r cylch hwn o sgyrsiau bwrdd yn ***Atodiad 6***. Amlinellir isod grynodeb o'r themâu a ddaeth i'r amlwg:

### 5.2.1 Pwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg

Lle y nodwyd ***sylwadau cadarnhaol*** ynglŷn â phwysigrwydd dysgu yn Gymraeg, roedd y rhain yn cynnwys agweddau megis bod yr iaith yn rhywbeth i '***ymfalchïo ynddi***' a'i bod '***yn rhan o'n hanes***', yn ogystal â'r iaith yn ***beth da i'w ddysgu ar gyfer busnes*** a ***chyfleoedd swydd***. Roedd rhai o blaid y Gymraeg fel pwnc gorfodol mewn ysgolion ac roeddent am weld hyn yn parhau mewn addysg bellach.

---

[8] Cyfanswm nifer y dysgwyr a bleidleisiodd naill ai '*anghytuno'n gryf*' neu '*anghytuno*'.
[9] Cyfanswm nifer y dysgwyr a bleidleisiodd naill ai '*cytuno'n gryf*' neu '*cytuno*'.

Mynegodd dysgwyr eraill ***safbwyntiau cymysg*** gan nodi ei bod yn ***dibynnu ar y llwybr gyrfa*** rydych am ei ddilyn neu'r ***rhan o Gymru*** a lefel y siaradwyr Cymraeg mewn ardal benodol. Nododd rhai dysgwyr y dylid gweithredu'n gytbwys, gan gydnabod y ***dylai'r Gymraeg gael ei pharchu, ond y dylai dysgwyr gael dewis***.

Roedd ***sylwadau negyddol*** yn canolbwyntio'n bennaf ar ***y Gymraeg fel pwnc gorfodol yn yr ysgol*** gydag un neu ddau o sylwadau ynglŷn â'r potensial i ddysgwyr ***gael eu llesteirio drwy ddysgu yn Gymraeg*** o ran cyfleoedd dilynol (e.e. mynd i'r brifysgol yn Lloegr).

### 5.2.2 Cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Rhoddwyd ***rhai hanesion cadarnhaol*** gan ddysgwyr ynglŷn â'r cyfleoedd a gawsant i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys yn y chweched dosbarth, colegau, dysgu seiliedig ar waith a'r brifysgol.

Fodd bynnag, roedd ***mwy o safbwyntiau cymysg a negyddol*** yn y rhan hon o'r drafodaeth, gan nodi barn ***nad oes digon o gyfleoedd*** ar gael i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiriodd dysgwyr at enghreifftiau a oedd yn cynnwys y ffaith nad oedd prentisiaethau ar gael yn Gymraeg, neu nad yw tiwtoriaid arbenigol yn gallu siarad Cymraeg na dysgu yn Gymraeg. Cyfeiriodd sylw mewn perthynas ag anghydraddoldebau, at brofiad o orfod cyflwyno aseiniad a ysgrifennwyd yn Gymraeg bythefnos cyn yr asesiad cyfatebol yn Saesneg.

### 5.2.3 Ansawdd / perthnasedd addysgu'r Gymraeg ar hyn o bryd

Cafwyd nifer o sylwadau ynglŷn ag ***ansawdd a/neu berthnasedd addysgu'r Gymraeg***. Mynegodd rhai dysgwyr farn mai ffocws y ffordd yr addysgir y Gymraeg ***mewn ysgolion yw llwyddo mewn arholiadau yn unig*** ac nad yw'n meithrin y gallu i sgwrsio yn yr iaith mewn ffordd a fydd yn helpu dysgwyr yn y dyfodol. Mynegodd dysgwyr fod ***angen gwell dysgu*** mewn perthynas â'r ***Gymraeg i'r gweithle***.

### 5.2.4 Gwella'r cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a manteisio ar y cyfleoedd hyn

Trafododd dysgwyr ***gyllid*** ac ***adnoddau ar gyfer dysgu yn Gymraeg*** gyda rhai yn nodi bod angen i hyn gael ei ***fuddsoddi mewn athrawon / tiwtoriaid*** i addysgu pynciau yn Gymraeg.

Fodd bynnag, roedd rhai dysgwyr o'r farn bod ***gormod o arian yn cael ei wario ar y Gymraeg eisoes*** (yn anghymesur â nifer y bobl sy'n siarad yr iaith); awgrymodd un sylw y dylai'r arian gael ei wario er mwyn helpu dysgwyr sy'n cael anawsterau gyda phynciau eraill yn lle hynny.

O ran ***darpariaeth***, roedd sylwadau yn cynnwys yr awgrym am ***leoliadau cyfrwng Cymraeg*** a sicrhau cysondeb o ran y ***cyfleoedd dysgu sydd ar gael y tu hwnt i'r ysgol***.

Codwyd mater ***oedran***, gyda nifer o ddysgwyr yn pwysleisio bod angen dysgu Cymraeg o oedran cynnar.

Roedd pwyntiau eraill a grybwyllwyd yn cynnwys ***hyd dosbarthiadau*** gyda dysgwyr yn dweud nad oedd ***awr yr wythnos yn ddigon hir*** i ddod yn rhugl yn yr iaith. Yn hyn o beth, soniodd dysgwyr hefyd fod angen ***mwy o gymorth gartref*** a / neu ei bod yn fuddiol os siaredir Cymraeg yn rhywle arall.

Yn olaf, roedd dysgwyr yn teimlo ei bod ***yn werth cael safonau*** a dylai'r rhain gael eu hadolygu. Cafwyd sylw hefyd yn y digwyddiad yng Nghaerdydd yr hoffai dysgwyr weld y Comisiwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'i waith.

# 6. Sesiwn adborth gan y gynulleidfa yn y digwyddiadau

Tua diwedd pob digwyddiad, rhoddwyd cyfle i bawb rannu meddyliau yn deillio o'r sgyrsiau. Amgaeir trawsgrifiad llawn o'r pwyntiau a godwyd yn ystod y sesiynau hyn yn ***Atodiad 7***.

Rhoddir crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn Neganwy isod:

***Darpariaeth Gymraeg***
*Dylai'r Comisiwn newydd bennu safonau a'u gorfodi*

***Rhwystrau ariannol***
*Llawer o wybodaeth anghywir am ddyled myfyrwyr. Mae angen i ddysgwyr gael y wybodaeth gywir ar yr adeg gywir*

***Llais y Dysgwyr***
*Mae'n hollbwysig ennyn diddordeb myfyrwyr yn y broses ddiwygio*

***Parch cydradd***
*Dylid dangos yr un parch mawr i brentisiaethau ag a ddangosir i'r brifysgol*

***Darpariaeth Gymraeg***
*Mae angen i adnoddau fod ar gael yn Gymraeg*

***Gwybodaeth***
*Gyrfa Cymru yw un o'r lleoedd gorau i droi ato*

***Gwybodaeth***
*Mae angen i ddysgwyr ddeall llwybrau gyrfa nid gofynion ar gyfer cyrsiau yn unig*

***Cymorth i ddewis***
*Mae angen gwybodaeth ar bobl ifanc yn llawer cynt*

***Cymorth i ddewis***
*Yn wirioneddol bwysig. Ond aiComisiwn newydd fyddai yn y sefyllfa orau? Ddim wedi'i bersonoli*

***Gwybodaeth***
*Dylai siaradwyr gwadd sy'n cynrychioli cyflogwyr / cwmnïau siarad â myfyrwyr am swyddi / llwybrau gyrfa*

***Cymorth i ddewis***
*Dylai'r Comisiwn lywio a thywys ond nid cyfarwyddo*

***Cymorth i ddewis***
*Dylai'r Comisiwn hwyluso mwy – er mwyn cefnogi arweiniad unigoledig*

***Cymhelliant swydd***
*Dylid dewis swyddi ar sail yr hyn sy'n eich gwneud yn hapus, nid yr arian*

Ceir crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd yng Nghaerdydd isod:

***Gyrfa Cymru***
*Pryder ynglŷn â gostyngiad mewn gwasanaethau*

***Cyngor ar yrfaoedd***
*Pryder ynglŷn â sgiliau athrawon i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr ddatblygu*

***Y Gymraeg***
*Codwyd cwestiwn ynglŷn â chymesuredd mewn perthynas â chyllid*

***Cyfleoedd ar gael***
*Pryder bod Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben – ni fydd yr un cyfleoedd i ddilyn cyrsiau gwahanol*

***Cyngor ar yrfaoedd***
*Pryder ynglŷn ag anghysonderau ledled Cymru drwy ddarpariaeth mewn ysgolion*

***Cyngor ar yrfaoedd***
*Byddai'n wirioneddol fuddiol pe bai gwefan ganolog sy'n cynnwys mwy o wybodaeth sy'n safonol*

***Y Gymraeg***
*Dylai fod gwahaniaeth rhwng 'siaradwr Cymraeg naturiol' neu 'ddysgwr Cymraeg'*

***Saeson***
*Meddyliwch fwy am y Sais os gwelwch yn dda*

***Dysgu oedolion***
*Gwnewch hyn yn fwy hygyrch a'i hysbysebu i rieni drwy ysgolion er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd lleol*

***Llais y Dysgwyr***
*Sicrhau yr ymgynghorir â dysgwyr ifanc a dysgwyr sy'n oedolion — mae ganddynt safbwyntiau da*

***Cymorth i ddysgwyr***
*Pam na ellir neilltuo cynghorydd ar gyfer dysgwyr a allai eu dilyn drwy gydol eu gyrfa?*

***Cymorth i ddysgwyr***
*Mae'n fwy anodd cael pobl i ddod yn ôl i addysg ar ôl 20 mlynedd na'u cadw yno yn y lle cyntaf. Dylai hwn fod yn brif fater i'r Comisiwn.*

***Dysgu oedolion***
*Peidiwch ag anghofio am ddysgwyr sy'n oedolion yn y broses hon — mae ein cyllid o dan fygythiad bob blwyddyn: Mae'n anodd cynnal rhaglenni a helpu i ddatblygu dysgwyr*

***Llais y Dysgwyr***
*Mae'n hollbwysig bod y Comisiwn yn parhau i ymgynghori â dysgwyr drwy gydol y broses*

***Cymorth i ddysgwyr***
*Dylai gael ei wneud gan y Comisiwn ond dylai hefyd ddechrau yn yr ysgol ar oedran cynnar*

***Cymorth i ddysgwyr***
*Os nad yw canlyniadau yn ôl y disgwyl, nid oes llawer o gymorth ar gael. Yna mae unigolion yn gwneud dewisiadau gwael o ran*

***Cymorth i ddysgwyr***
*Mae gan ddarparwyr rôl bwysig i'w chwarae o ran gofal bugeiliol ac mae angen i hyn gael ei wella – bydd angen i'r Comisiwn gefnogi hyn*

# 7. Gwerthuso'r digwyddiadau a phwyntiau olaf mewn perthynas â'r ymgynghoriad

Rhoddwyd ffurflenni gwerthuso ar gyfer y digwyddiadau i'r rhai a fu'n bresennol a rhoddwyd cyfle hefyd i fwydo unrhyw sylwadau olaf i mewn o ran yr ymgynghoriad. Gellir gweld y sylwadau ar yr olaf yn llawn drwy ***Atodiad 8***.

Mae'r themâu sy'n codi o'r pwyntiau olaf hyn yn debyg i'r safbwyntiau a gofnodwyd eisoes ac a grynhowyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, felly nid ydynt wedi eu hailadrodd yma.

Ystyriwyd bod y ddau ddigwyddiad wedi bod yn llwyddiannus iawn — dangosir disgrifyddion allweddol gan y rhai a fu'n bresennol yn y 'cwmwl geiriau' ar yr ochr dde.

Roedd y rhai a fu'n bresennol yn teimlo bod y digwyddiadau yn hynod ddefnyddiol a'u bod wedi rhoi llwyfan rhyngweithiol pleserus i gymryd rhan mewn trafodaethau mewn modd cadarnhaol. Roedd pobl yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o ddysgwyr ym mhob digwyddiad a greodd amrywiaeth o safbwyntiau diddorol a sgyrsiau cynhyrchiol. Roedd pobl hefyd yn parchu'r ffaith i'r digwyddiad gael ei gynnal yn ddwyieithog.

Mae'n amlwg o'r gwerthusiad hwn a'r adborth olaf bod dysgwyr ac eraill a fu'n bresennol yn gwerthfawrogi bod yn rhan o'r ymgynghoriad yn fawr iawn a'u bod yn awyddus i barhau i gymryd rhan ar bob cam o'r broses Bydd yn bwysig dangos sut mae Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar yr adborth wrth iddi lunio a datblygu'r diwygiadau a'r Comisiwn newydd yn y dyfodol.



# ATODIAD 1

## Detholiad o ffotograffau o’r digwyddiadau


9








Datblygu System
PCET Ddiwygiedig
Building a Reformed
PCET System


9




1


5


SIXTH FORM
AMBASSADOR
Head Boy




9






6


Croeso
Welcome
Neil Surman
Llywodraeth Cymru
Welsh Government




11





# ATODIAD 2

## Canlyniadau arolygon barn y gynulleidfa

# Canlyniadau arolygon barn y gynulleidfa – Deganwy – 4 Hydref 2017

## Cwestiwn 1

**Mae rhwystrau'n bodoli sy'n atal rhai dysgwyr rhag mynd i brifysgol**

**a)** Cytuno'n gryf
**b)** Cytuno
**c)** Ddim yn siwr
**d)** Anghytuno
**e)** Anghytuno'n gryf

## Question 1

**There are barriers which prevent some learners from accessing university**

**a)** Strongly agree
**b)** Agree
**c)** Undecided
**d)** Disagree
**e)** Strongly disagree




## Cwestiwn 2

**Mae angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer amddiffyn dysgwyr sy'n astudio â darparwyr PCET yng Nghymru**

**a)** Cytuno'n gryf
**b)** Cytuno
**c)** Ddim yn siwr
**d)** Anghytuno
**e)** Anghytuno'n gryf

## Question 2

**The arrangements to protect learners studying at PCET providers in Wales need to be strengthened**

**a)** Strongly agree
**b)** Agree
**c)** Undecided
**d)** Disagree
**e)** Strongly disagree



# Canlyniadau arolygon barn y gynulleidfa– Digwyddiad Deganwy – 4 Hydref 2017

## Cwestiwn 3

**Dylai'r Comisiwn newydd chwarae rhan yn y gwaith o helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau da o ran pa gwrs neu ddarparwyr dysgu i'w ddewis.**

**a)** Cytuno'n gryf
**b)** Cytuno
**c)** Ddim yn siwr
**d)** Anghytuno
**e)** Anghytuno'n gryf

## Question 3

**The new Commission should play a part in helping students make good decisions about which course or learning provider to choose.**

**a)** Strongly agree
**b)** Agree
**c)** Undecided
**d)** Disagree
**e)** Strongly disagree




## Cwestiwn 4

**Yng Nghymru, mae cyfle cyfartal i bobl ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.**

**a)** Cytuno'n gryf
**b)** Cytuno
**c)** Ddim yn siwr
**d)** Anghytuno
**e)** Anghytuno'n gryf

## Question 4

**In Wales, there are equal opportunities for people to learn in Welsh and English.**

**a)** Strongly agree
**b)** Agree
**c)** Undecided
**d)** Disagree
**e)** Strongly disagree



# Canlyniadau arolygon barn y gynulleidfa – Digwyddiad Caerdydd – 12 Hydref 2017

## Cwestiwn 1

**Mae rhwystrau'n bodoli sy'n atal rhai dysgwyr rhag mynd i brifysgol**

**a)** Cytuno'n gryf
**b)** Cytuno
**c)** Ddim yn siwr
**d)** Anghytuno
**e)** Anghytuno'n gryf

## Question 1

**There are barriers which prevent some learners from accessing university**

**a)** Strongly agree
**b)** Agree
**c)** Undecided
**d)** Disagree
**e)** Strongly disagree




## Cwestiwn 2

**Mae angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer amddiffyn dysgwyr sy'n astudio â darparwyr PCET yng Nghymru**

**a)** Cytuno'n gryf
**b)** Cytuno
**c)** Ddim yn siwr
**d)** Anghytuno
**e)** Anghytuno'n gryf

## Question 2

**The arrangements to protect learners studying at PCET providers in Wales need to be strengthened**

**a)** Strongly agree
**b)** Agree
**c)** Undecided
**d)** Disagree
**e)** Strongly disagree



# Canlyniadau arolygon barn y gynulleidfa – Digwyddiad Caerdydd – 12 Hydref 2017

## Cwestiwn 3

**Dylai'r Comisiwn newydd chwarae rhan yn y gwaith o helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau da o ran pa gwrs neu ddarparwyr dysgu i'w ddewis.**

**a)** Cytuno'n gryf
**b)** Cytuno
**c)** Ddim yn siwr
**d)** Anghytuno
**e)** Anghytuno'n gryf

## Question 3

**The new Commission should play a part in helping students make good decisions about which course or learning provider to choose.**

**a)** Strongly agree
**b)** Agree
**c)** Undecided
**d)** Disagree
**e)** Strongly disagree




## Cwestiwn 4

**Yng Nghymru, mae cyfle cyfartal i bobl ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.**

**a)** Cytuno'n gryf
**b)** Cytuno
**c)** Ddim yn siwr
**d)** Anghytuno
**e)** Anghytuno'n gryf

## Question 4

**In Wales, there are equal opportunities for people to learn in Welsh and English.**

**a)** Strongly agree
**b)** Agree
**c)** Undecided
**d)** Disagree
**e)** Strongly disagree



# ATODIAD 3

## Adborth ar thema:

## *Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol*

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag mynd i'r brifysgol** | ***Arian / Ofn dyled:***<br>- *D.T1.Q1.1.L*<br>Arian – methu â fforddio mynd.<br>- *D.T1.Q1.4.L*<br>Ddim am fynd i ddyled — helpu'r teulu.<br>- *D.T2.Q1.1.L*<br>Rhwystrau ariannol. Er bod cymorth, mae'n rhaid i'r ddyled gael ei had-dalu.<br>- *D.T1.Q1.15.L*<br>Beth am aelwydydd lle na fyddai rhieni ar incwm uwch yn rhoi cymorth? Y person ifanc a fyddai'n mynd i ddyled!<br>- *D.T2.Q1.6.L*<br>Mae rhai myfyrwyr yn ceisio dal i fyny'n ariannol ar ôl gadael y brifysgol.<br>- *D.T3.Q1.1.L*<br>Cyllid – ddim llawer yn rhoi benthyciadau – ffioedd dysgu ddim yn broblem – costau byw yn fwy o broblem – cost byw yng Nghaergrawnt – mae Caergrawnt wedi helpu gyda fy nghostau astudio – dyled fawr o £60,000 o'r brifysgol.<br>- *D.T4.Q1.1.L*<br>Materion ariannol.<br>- *D.T5.Q1.1.L*<br>Cyllid, ofn dyled.<br>- *D.T6.Q1.1.L*<br>Arian – pwynt mawr (benthyciadau cynhaliaeth – angen mwy). Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig digon o gymorth ariannol. Wedi clywed ei bod yn waeth yn Lloegr.<br>- *D.T7.Q1.6.L*<br>Poeni am fenthyciadau.<br>- *D.T7.Q1.9.L*<br>Mae fel petai rhywun yn dwyn oddi wrthych.<br>- *D.T7.Q1.13.L*<br>Dim ond arian sy'n atal rhywun rhag mynd i'r brifysgol.<br>- *D.T8.Q1.1.L*<br>Mae'n gostus iawn mynd i'r brifysgol, gyda dyled am weddill eich oes. | ***Arian / Ofn dyled:***<br>- *D.T5.Q1.2.P*<br>Diffyg cymorth gan y teulu (rhieni yn talu i blentyn fynd drwy'r brifysgol).<br>- *D.T7.Q1.16.P*<br>Ni chaiff cyllid i fyfyrwyr ei drafod / ei gyflwyno yn yr ysgol. |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag mynd i'r brifysgol** | ***Arian / Ofn dyled:***<br>- *D.T8.Q1.2.L*<br>Gwahaniaeth mawr rhwng Cymru a Lloegr – y cyllid sydd ar gael a chost.<br>- *D.T9.Q1.2.L*<br>*Rhwystrau* – cost.<br>- *C.T5.Q1.5.L*<br>[*Rhwystrau*]: Arian<br>- *D.T10.Q1.1.L*<br>Rhwystrau ariannol yw'r rhai mwyaf (dysgwr AU presennol)<br>- *D.T10.Q1.2.L*<br>Costau byw yn ogystal â chost yr addysg eu hun.<br>- *C.T1.Q1.3.L*<br>Arian parod i'ch galluogi i fynd i'r brifysgol.<br>- *C.T2.Q1.5.L*<br>Mae dyled yn broblem enfawr sy'n gwneud i fyfyrwyr roi'r gorau iddi. (Cyllid Myfyrwyr Cymru). Gradd lawn yn y brifysgol – gwnewch hi yn y coleg £1,500 yn rhatach yn y coleg (rhwydwaith cymorth yn anhygoel).<br>- *C.T4.Q1.6.L*<br>[*Rhwystrau*] Arian.<br>- *C.T6.Q1.2.L*<br>Mae dysgwyr rhan amser yn talu llawer mwy na myfyrwyr llawn amser a heb gymorth ariannol i wneud hyn.<br>- *C.T6.Q1.4.L*<br>Problem fawr i deulu incwm isel lle mae'n rhaid i'r dysgwr gynnal ei hun. Hefyd ar ôl 19, daw cyllid arall i ben.<br>- *C.T6.Q1.5.L*<br>Asesiad GDC yn annheg gan fod yn rhaid defnyddio prawf moddion. Mawrth - Medi nid yw'n ystyried costau ar gyfer y cyfnod hwnnw.<br>- *C.T6.Q1.6.L*<br>Anodd iawn dychwelyd i addysg wrth i chi fynd yn hŷn, yn bennaf oherwydd cyllid.<br>- *C.T6.Q1.8.L*<br>Mae ffioedd yng Nghymru yn dda, £4k o gymharu â Lloegr. | |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag mynd i'r brifysgol** | ***Arian / Ofn dyled:***<br>- *C.T6.Q1.9.L*<br>Mae llety yn rhwystr oherwydd costau uchel.<br>- *C.T7.Q1.8.L*<br>Goblygiadau cost gwneud gradd - £9k<br>- *C.T9.Q1.1.L*<br>Arian – dyled, ofn mynd [*i'r brifysgol*] – cyfle swydd ar ddiwedd dwy flynedd.<br>- *C.T10.Q1.1.L*<br>Mae costau yn rhwystr enfawr – dyled gydol oes.<br>- *C.T3.Q1.13.L*<br>Gallai cost effeithio ar y penderfyniad i fynd i'r brifysgol. Os nad ydych yn siŵr, mae llawer o arian i'w fuddsoddi.<br>- *C.T5.Q1.22.L*<br>Rhiant sengl – ddim eisiau mynd i ddyled i fynd i'r brifysgol.<br><br>***Gofynion mynediad:***<br>- *D.T1.Cw1.2.L*<br>Graddau ddim yn ddigon uchel.<br>- *D.T5.Q1.7.L*<br>Gallu academaidd.<br>- *D.T6.Q1.2.L*<br>Cymwysterau – mathemateg a Saesneg yn enwedig. Arholiadau - nid yr unig ffordd...a oes ffyrdd eraill?<br>- *D.T7.Q1.4.L*<br>Cymwysterau academaidd – lefelau mynediad yn rhy uchel.<br>- *D.T8.Q1.12.L*<br>Pwysau arholiadau academaidd ar lefel TGAU / Safon Uwch yn effeithio ar ganlyniadau'n negyddol.<br>*D.T7.Q1.14.L*<br>Dylai cymwysterau BTEC gael eu cyfrif. | |

ATODIAD 3 – ***Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol***

| **Syniadau ynglŷn â gwella trefniadau i amddiffyn a chefnogi dysgwyr** | ***Lefel y cymorth:***<br>- *C.T4.Q2.1.L*<br>Mwy o gymorth – timau prentisiaethau.<br>- *C.T4.Q2.2.L*<br>Cymorth ychwanegol – cwnselydd – anogwyr dysgu (ITEC); cydgysylltydd taith lleoliadau (ITEC); swyddog lles.<br>- *C.T2.Q2.5.L*<br>A ddylai'r coleg roi'r holl gymorth a chwnselwyr a phobl eraill sydd eu hangen arnoch.<br>- *C.T10.Q2.3.L*<br>Mwy o gymorth i ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed sydd wedi methu â chyflawni o ychydig ac nad ydynt wedi ennill y graddau i fynd ble maent am fynd.<br>- *C.T7.Q2.2.L*<br>Yn derbyn bod cymorth ar gael ond gellid gwneud rhagor. Mwy o bwyslais ar diwtora personol ar gael bellach. Fodd bynnag, mae rhai dysgwyr yn cael budd o fod mewn dosbarth o bobl. Dim digon o amser un i un ar gael o hyd e.e. 23 o bobl ar gwrs Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol.<br><br>***Hyrwyddo cymorth:***<br>- *C.T6.Q2.2.L*<br>Mae angen cyfathrebu'n fwy effeithiol ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael.<br><br>***Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd:***<br>- *C.T10.Q2.4.L*<br>Mwy o gyngor diduedd mewn ysgolion ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael.<br>- *C.T10.Q2.5.L*<br>Mae targedau ysgolion yn effeithio ar y cyngor a roddir i ddysgwyr ynglŷn ag Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol.<br><br>***Gwybodaeth i rieni:***<br>- *C.T9.Q2.2.L*<br>Gwybodaeth rhieni i'w rhoi i bobl ifanc. Mae rhieni sydd â phrofiad yn fwy tebygol o gefnogi plentyn. | ***Lefel y cymorth:***<br>- *C.T7.Q2.7.P*<br>Mae angen mwy o gymorth i ddod o hyd i leoliadau ar ôl y cwrs, neu fel rhan o'r cwrs.<br>- *C.T9.Q2.6.P*<br>Mae angen mwy o gymorth mewn cymunedau.<br><br>***Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd:***<br>- *C.T8.Q2.1.P*<br>Cyngor diduedd – mae ysgolion a cholegau am eich denu oherwydd yr ystadegau! |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Syniadau ynglŷn â gwella trefniadau i amddiffyn a chefnogi dysgwyr** | ***Cyllid:***<br>- *C.T10.Q2.1.L*<br>Cyllid dibynadwy a digonol i ddarparwyr.<br>- *D.T3.Q2.1.L*<br>Yn bwysig iawn, y sefyllfa ariannol – 'felly y mae' – yn well na'r sefyllfa yn Lloegr – yn gwybod y byddaf yn mynd i ddyled.<br>- *D.T4.Q2.12.L*<br>Mwy o wybodaeth am gymorth ariannol - dim ond drwy ffrindiau ar gwrs arall y ces wybod amdano.<br>- *C.T1.Q2.1.L*<br>Cymorth ariannol er mwyn helpu i barhau i deithio i'r lleoliad gwaith.<br>- *C.T4.Q2.3.L*<br>Cludiant wedi'i ariannu - i'r / o'r ganolfan (cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus).<br>- *C.T4.Q2.5.L*<br>ITEC – mae cyllid yn cefnogi rhan o'r costau cludiant i'r ganolfan os defnyddir trafnidiaeth gyhoeddus.<br>- *C.T4.Q2.6.L*<br>LCA – dim ond i rieni nad ydynt yn ennill digon – rhieni sydd wedi gwahanu?<br>Dylai fod yn gymwys i bawb – safoni – cymhelliant – taleb yn lle arian parod?<br>- *C.T9.Q2.8.L*<br>Arian a ddarperir ar gyfer ysgolion a chymhwyster Bagloriaeth Cymru.<br><br>***Darpariaeth / cymorth amgen:***<br>- *D.T2.Q2.1.L*<br>Dylai fod darpariaeth amgen, gan gynnwys cludiant.<br>- *C.T1.Q2.2.L*<br>Roedd dysgwyr yn teimlo yr hoffent i'r Comisiwn helpu gyda chynghorydd coleg neu seiliedig ar waith newydd.<br>- *C.T1.Q2.4.L*<br>Os bydd cwmnïau yn cau, at bwy y gall y dysgwr droi er mwyn gallu dod o hyd i gyflogwr newydd. | ***Cyllid:***<br>- *C.T9.Q2.1.P*<br>Cyllid o flwyddyn i flwyddyn, dim cynllun hirdymor. Bygythiad i ddysgwyr. Efallai fod opsiynau i rai dysgwyr wedi diflannu.<br>- *C.T9.Q2.9.P*<br>Ailwampio'r system (sefydliadau a darparwyr) – cost lawn i gofrestru â phrifysgol er gwaethaf y ffaith bod rhai yn gadael cyrsiau. |

ATODIAD 4 – ***Diogelu buddiannau dysgwyr Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Syniadau ynglŷn â gwella trefniadau i amddiffyn a chefnogi dysgwyr** | ***Technoleg:***<br>- *D.T2.Q2.3.L*<br>Gallai fideo-gynadledda fod yn ddull amgen. Mae rhai prifysgolion yn lanlwytho darlithwyr i gwmwl.<br>- *D.T6.Q2.3.L*<br>Deall y llwyfan technoleg.<br><br>***Dyluniad / fformat y cymorth:***<br>- *D.T4.Q2.14.L*<br>Dylai cymorth i ddysgwyr gael ei ddylunio ar y cyd â dysgwyr.<br>- *C.T7.Q2.3.L*<br>Cymorth i bobl i ddefnyddio TG. Cymorth ychwanegol yn cael ei roi wrth astudio cyrsiau eraill, e.e. mae ymchwil i gart achau yn ddefnyddiol. Mae angen cymorth uniongyrchol gan berson go iawn a all ddangos beth i'w wneud i chi.<br><br>***Safonau cymorth:***<br>- *D.T7.Q2.9.L*<br>Dylai'r Llywodraeth wella safonau athrawon o ran arweiniad a chymorth.<br>- *D.T6.Q2.6.L*<br>Mwy o ddealltwriaeth o rwydwaith cymorth.<br><br>***Gwell cysylltiadau rhwng sefydliadau:***<br>- *D.T6.Q2.8.L*<br>Mwy o gyfathrebu rhwng ysgolion a sefydliadau addysg uwch – 'partneriaethau'.<br><br>***Cyrsiau rhagflas / lleoliadau:***<br>- *D.T10.Q2.4.L*<br>Gallai cyrsiau sylfaen roi profiad rhagflas hanfodol i rai dysgwyr cyn iddynt ddewis cwrs er mwyn astudio ar gyfer cymhwyster. Cyrsiau byrion yn ystod yr haf. | ***Technoleg:***<br>- *D.T7.Q2.1.L*<br>Ni all darpariaeth ar-lein ddisodli ymgysylltu ag ieuenctid.<br><br>***Dyluniad / fformat y cymorth:***<br>- *D.T8.Q2.12.P*<br>Mae angen gwell asesu er mwyn nodi'n gynnar ble mae angen y cymorth – mae angen iddo fod yn fwy cyson ac effeithiol.<br>- *C.T9.Q2.12.P*<br>Proses sy'n gysylltiedig â dysgwyr.<br>- *D.T8.Q2.8.P*<br>Amser i weithio ar feysydd penodol o angen / gwendidau.<br><br>***Cyrsiau rhagflas / lleoliadau:***<br>- *C.T1.Q2.3.P*<br>Mae angen cymorth ymarferol, lleoliad gwaith, coleg? |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Syniadau ynglŷn â gwella trefniadau i amddiffyn a chefnogi dysgwyr** | ***Cyrsiau mynediad:***<br>- *C.T6.Q2.6.L*<br>Mae prentisiaethau a chyrsiau mynediad yn gyrsiau porth i ddysgwyr hŷn na allant fforddio'r amser i astudio ar gyfer cyrsiau AU, e.e. Mae mynediad at gwrs prifysgol yn gyflymach = llai o amser i ffwrdd o'r gwaith / baich ariannol.<br><br>***Sicrhau oriau / lleoedd:***<br>- *D.T11.Q2.1.L*<br>Mae angen sicrhau bod oriau wedi'u diogelu – hawl myfyrwyr i gwblhau eu cwrs.<br>- *D.T11.Q2.4.L*<br>Dylai pob sefydliad gadw lleoedd i fyfyrwyr am gyfnodau estynedig os bydd rhiant wedi marw ac ati.<br><br>***Cael saib mewn astudio:***<br>- *D.T1.Q2.4.L*<br>Cael saib mewn astudio a dod yn ôl ar adeg wahanol. Ffocws ar rywbeth arall.<br><br>***Trosglwyddo:***<br>- *D.T11.Q2.2.L*<br>Ei gwneud yn haws i fyfyrwyr newid cyrsiau – trosglwyddiadau mewnol o fewn coleg neu brifysgol gyda dyddiad torbwynt.<br>- *C.T2.Q2.6.L*<br>Annog dysgwyr i newid pynciau os nad ydynt yn hapus. ACT – 50/50<br>- *D.T2.Q2.4.L*<br>Gall newid cwrs newid llwybrau mewn bywyd ac felly ni ddylid eu caniatáu.<br><br>***Dull unigol o ddysgu:***<br>- *D.T6.Q2.9.L*<br>Gadewch i'r myfyriwr benderfynu ar ei 'ddeilliannau dysgu' ei hun.<br>- *D.T7.Q2.8.L*<br>Dylid ymddiried mewn pobl i benderfynu ar ba lefel y maent am astudio. | |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Syniadau ynglŷn â gwella trefniadau i amddiffyn a chefnogi dysgwyr** | ***Dull unigol o ddysgu:***<br>- *D.T7.Q2.10.L*<br>Mae unffurfiaeth yn cael ei hystyried yn bwysicach nag addysg unigolyn.<br>- *C.T9.Q2.3.L*<br>Rhaglen / llwybr dysgu ac addysg unigol, dechrau'n gynharach gyda chyngor ac ati.<br>- *D.T3.Q2.3.L*<br>Amgylchiadau unigol – mae rhai prifysgolion wedi cynnig graddau is i gael mynediad at radd.<br><br>***Rôl Llywodraeth Cymru/ Comisiwn Newydd:***<br>- *C.T5.Q2.2.L*<br>Rwy'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru gamu i mewn.<br>- *C.T5.Q2.4.L*<br>Gwaith y Llywodraeth yw diogelu pobl sy'n dysgu. Dylai fod dyletswydd i unioni'r sefyllfa os bydd cyrsiau yn cau.<br>- *C.T1.Q2.5.L*<br>Gallai'r Comisiwn newydd ddod yn gorff 'anhepgor' newydd er mwyn i ddysgwyr ddod o hyd i atebion i gwestiynau cyffredin.<br>- *C.T1.Q2.11.L*<br>*(Mewn ymateb i gwestiwn gan weithiwr proffesiynol [cyf: C.T1.Q2.10.P] – A ddylai'r Comisiwn newydd gynnig cymorth ar gyfer amgylchiadau coleg neu bersonol? Corff anhepgor? ]* Dywedodd dysgwr yr hoffai gyfeirio at arweiniad ar-lein.<br>- *C.T7.Q2.1.L*<br>Dylai Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cymdeithasol roi cymorth i gyrraedd y cyrsiau.<br><br>***Ymgynghori:***<br>- *C.T6.Q2.3.L*<br>Nid yw'r coleg yn ymgynghori â dysgwyr cyn newid cyrsiau. | ***Ymgynghori:***<br>- *C.T8.Q2.6.P*<br>Weithiau mae darparwyr hyfforddiant yn cael eu diystyru – ac eto nhw sy'n dal NEETs [*pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg na Hyfforddiant*]. |

**ATODIAD 4 – *Diogelu buddiannau dysgwyr Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Ddim yn deall y cwestiwn** | - *D.T1.Q2.1.L*<br>Ddim yn deall y cwestiwn.<br>- *C.T3.Q2.1.L*<br>Heb benderfynu am nad wyf yn deall y cwestiwn – ai cymorth neu ddiogelu sydd dan sylw? | |
| **Sylw aneglur / ddim yn siŵr sut i'w gategoreiddio at ddibenion gwerthuso** | - *D.T1.Q2.6.L*<br>Addysg..<br><br>--------<br><br>*Gofynnwyd i un bwrdd o ddysgwyr ifanc (Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6) y cwestiwn: 'Beth hoffech ei wneud?'; nodwyd yr ymatebion fel a ganlyn:*<br><br>- *D.T9.Q2.1.L*<br>Artist – mynegiannol – paentio / dillad.<br>- *D.T9.Q1.2.L*<br>Peiriannydd– fel fy nhad – profiad.<br>- *D.T9.Q1.3.L*<br>Rheolwr banc – helpu gyda'r sefyllfa ariannol.<br>- *D.T9.Q1.4.L*<br>Ceidwad sw – wedi cael profiad ohono.<br>- *D.T9.Q1.5.L*<br>Difyrrwr ar-lein – bod yn enwog.<br>- *D.T9.Q1.6.L*<br>Gweithio gyda chŵn - yn dwlu ar gŵn.<br>- *D.T9.Q1.7.L*<br>Meddyg – meddygol yn hytrach na llawfeddygol.<br>- *D.T9.Q1.8.L*<br>Ysbïwr - lleihau troseddau. | |

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| | - *D.T9.Q1.9.L* Y brifysgol | |

# ATODIAD 5

## Adborth ar thema:

## *Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr*

**ATODIAD 5 – *Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Cyngor ar yrfaoedd mewn ysgolion** | ***Sylwadau cadarnhaol am gyngor ar yrfaoedd mewn ysgolion:***<br>- *D.T8.Q3.5.L*<br>Mae'r cymorth a'r cyngor hwnnw yn wirioneddol ddefnyddiol [*cyfeiriad at Gyrfa Cymru*]<br>- *D.T10.Q3.2.L*<br>Mae Gyrfa Cymru yn hollbwysig o ran rhoi cyfeiriad.<br>- *D.T10.Q3.3.L*<br>Rhaglen Byd Gwaith. Gweithio gyda phlant ifanc hyd at Flwyddyn 9, gan eu helpu i nodi cyfleoedd swyddi sy'n cyd-fynd â'u diddordebau a'r pethau sy'n ennyn eu brwdfrydedd o oedran ifanc iawn. Mwy o gynlluniau fel hyn yw'r dyfodol.<br>- *C.T4.Q3.1.L*<br>Gyrfa Cymru – agorodd ddrysau i gyfleoedd eraill – Coleg Dewi Sant; ITEC; ACT; ac ati.<br>- *C.T3.Q3.7.L*<br>Wedi ystyried newid pynciau Safon Uwch yn yr ysgol. Rhoddwyd cyngor ac roedd yn ddefnyddiol ac yn ddiduedd.<br>- *D.T10.Q3.8.L*<br>Mae cyngor gan diwtoriaid personol wedi bod yn allweddol i rai dysgwyr i'w helpu i wybod pa gyrsiau sy'n addas, yr hyn y dylid ei ddisgwyl gan gyrsiau gwahanol, beth yw eu llwybrau dilyniant posibl.<br><br>***Safbwyntiau niwtral / cymysg am gyngor ar yrfaoedd mewn ysgolion:***<br>- *D.T1.Q3.2.L*<br>Cyngor personol ar yrfaoedd mewn ysgolion. Bu'n rhaid gwneud llawer o ymchwil i ddod o hyd i'r wybodaeth i wneud penderfyniadau.<br><br>***Sylwadau negyddol am gyngor ar yrfaoedd mewn ysgolion:***<br>- *D.T4.Q3.9.L*<br>Rhoddwyd cyngor gwael ynglŷn â chyrsiau a gyrfaoedd yn y dyfodol. Roedd y rhan fwyaf wedi gwneud eu hymchwil eu hunain i ofynion mynediad i fynd i'r brifysgol / cyrsiau / gwaith. | ***Sylwadau negyddol am gyngor ar yrfaoedd mewn ysgolion:***<br>- *D.T8.Q3.4.P*<br>Beth sydd wedi digwydd yn sgil crebachu Gyrfa Cymru a'r cymorth a roddwyd cyn y toriadau? |

ATODIAD 5 – ***Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Cyngor ar yrfaoedd mewn ysgolion** | ***Sylwadau negyddol am gyngor ar yrfaoedd mewn ysgolion:***<br>- *D.T1.Q3.7.L*<br>Gyrfaoedd arbenigol mewn ysgolion. Ceir cynghorydd ar yrfaoedd – ddim mor adnabyddus ag y dylai fod yn yr ysgol.<br>- *D.T5.Q3.2.L*<br>Nid oedd y cyngor ar yrfaoedd yn dda iawn. Ceisio dwyn perswâd yn hytrach na'ch llywio o ran ble rydych yn dymuno mynd.<br>- *D.T4.Q3.8.L*<br>Mae safonau cyngor ar yrfaoedd a dewisiadau yn amrywio gormod.<br>- *C.T3.Q3.10.L*<br>Nid oedd cyngor ar gael yn yr ysgol. | |
| **Opsiynau, newid cyrsiau a symud ymlaen** | ***Opsiynau - cyffredinol:***<br>- *D.T1.Q3.9.L*<br>Nid yw opsiynau yn ymarferol o reidrwydd o ran swyddi – weithiant maent yn gwrthdaro! Dylid sicrhau bod opsiynau yn fwy addasadwy.<br>- *D.T3.Q3.8.L*<br>I astudio drama — rhaid symud daearyddiaeth.<br>- *D.T4.Q3.11.L*<br>Nid oedd dewisiadau ym Mlwyddyn 9 bob amser yn ddigon eang – rhaid dewis beth oedd ar gael.<br>- *D.T4.Q3.12.L*<br>Dewisiadau TGAU Blwyddyn 9 – dylai dysgwyr fod yn fwy ymwybodol o effaith dewis beth a wnaethant.<br>- *D.T4.Q3.13.L*<br>Mae dewisiadau a'r hyn a gynigir yn amrywio llawer gormod o sir i sir.<br>- *D.T1.Q3.6.L*<br>Wedi dewis opsiynau i gadw opsiynau yn agored. Ddim yn gwybod beth mae am ei wneud.<br>- *D.T5.Q3.4.L*<br>Mae angen dewis arall heblaw mynd i'r brifysgol. | ***Opsiynau - cyffredinol:***<br>- *D.T7.Q3.10.P*<br>Mae'r llwybr galwedigaethol yn cael ei ystyried yn un anghydffurfiol. |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Opsiynau, newid cyrsiau a symud ymlaen** | ***Opsiynau - cyffredinol:***<br>- *D.T7.Q3.11.L*<br>Nid yw [*pobl ifanc*] yn teimlo bod ganddynt ddewisiadau.<br>- *D.T7.Q3.8.L*<br>Rydych yn cael eich rhoi ar lwybr eisoes cyn y gallwch ddewis eich llwybr eich hun<br>- *D.T11.Q3.5.L*<br>Hyblygrwydd i allu newid oriau yn nhymor 1.<br>- *C.T3.Q3.5.L*<br>Mae'r cyfnod ôl-16 ychydig yn niwlog o ran cyfeiriad ac opsiynau.<br>- *C.T2.Q3.3.L*<br>Pa gyfleoedd eraill sydd?<br>- *C.T10.Q3.3.L*<br>[*Mae angen*] llai o ddyblygu cyrsiau ar yr un lefel ac yn yr un pynciau yn yr un ardaloedd.<br>- *C.T7.Q3.6.L*<br>Nid ystyrir bod QTS a QTLS yn cyfateb yng Nghymru ond yn wahanol yn Lloegr felly mae'n gwneud penderfyniadau yn anodd.<br><br>***Opsiynau - Prentisiaethau:***<br>- *C.T6.Q3.6.L*<br>Rwy'n teimlo bod prentisiaethau yn opsiwn gwych.<br>- *C.T1.Q3.10.L*<br>Mae dysgwyr yn teimlo nad ydynt yn cael gwybodaeth am brentisiaethau yn yr ysgol.<br>- *D.T7.Q3.9.L*<br>A yw prentisiaethau yn bodoli y tu allan i Lannau Dyfrdwy?<br><br>***Opsiynau- pwysau:***<br>- *D.T6.Q3.6.L*<br>Gormod o bwysau.<br>- *D.T6.Q3.5.L*<br>Dylech fod yn meddwl am fwynhau bod yn ifanc yn hytrach na gorfod cynllunio'ch gyrfa drwy'r amser. | |

ATODIAD 5 – ***Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Opsiynau, newid cyrsiau a symud ymlaen** | ***Opsiynau- pwysau:***<br>- *D.T10.Q3.5.L*<br>Ar hyn o bryd, dywedir hefyd mai arholiadau TGAU yw'r 'arholiadau pwysicaf a fydd yn penderfynu gweddill eich bywyd', ac mae angen cydnabod na fydd pawb yn cael y graddau TGAU gorau nac yn dymuno mynd i astudio pynciau Safon Uwch ac yna radd yn y brifysgol.<br>- *C.T6.Q3.2.L*<br>Gormod o bwysau ar bobl iau i ddewis eu pynciau TGAU. Yn cael eu dewis yn 14 oed.<br>- *C.T6.Q3.3.L*<br>Fodd bynnag, ar ôl TGAU dewisais bynciau roeddwn yn eu mwynhau.<br>- *C.T3.Q3.4.L*<br>Mae 16 yn ifanc iawn i wneud penderfyniadau ynglŷn â'r hyn rydych am ei wneud am weddill eich oes – mae angen cyfyngu ar hynny.<br>- *C.T6.Q3.4.L*<br>Cefais fy ngorfodi i astudio pynciau Safon Uwch nad oeddwn yn eu mwynhau ac nad oeddwn yn rhoi sylw iddynt.<br><br>***Opsiynau - cymorth:***<br>- *D.T7.Q3.2.L*<br>Byddai'n ddefnyddiol pe bai rhywun yn dangos yr opsiynau i ni.<br>- *D.T8.Q3.2.L*<br>Gall fod yn bwysig iawn gan nad yw rhai myfyrwyr mor annibynnol.<br>- *C.T2.Q3.2.L*<br>Mwy o gyngor – meithrin gwydnwch. Mwy o ddigwyddiadau fel hyn – thema diwrnod agored! I ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd.<br>- *D.T4.Q3.10.L*<br>Byddai wedi bod yn dda gennyf pe bawn wedi cael mwy o gymorth wrth ddewis fy nghyrsiau.<br>- *C.T1.Q3.8.L*<br>Ysgolion, cymorth cyfryngau cymdeithasol, opsiynau ddim yn cael eu trafod. | |

**ATODIAD 5 – *Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Opsiynau, newid cyrsiau a symud ymlaen** | ***Opsiynau - cymorth:***<br>- *D.T9.Q3.2.L*<br>Cymorth gan yr ysgol uwchradd – dim llawer ar hyn o bryd.<br>- *D.T6.Q3.1.L*<br>Os ydych yn gwybod ynglŷn â phenderfyniadau, gall eich helpu i wybod mwy am y cwrs.<br><br>***Newid cyrsiau – sylwadau cadarnhaol:***<br>- *C.T3.Q3.11.L*<br>Mae mab i ffrind wedi newid cwrs yn y brifysgol ac mae’r newid wedi bod yn hawdd.<br><br>***Newid cyrsiau– sylwadau negyddol:***<br>- *C.T3.Q3.9.L*<br>Gall newid cwrs olygu bod yn rhaid i chi ddal i fyny fel effaith ganlyniadol.<br>- *C.T3.Q3.12.L*<br>Fawr ddim cyfle i newid cwrs na chyfeiriad mewn prentisiaethau.<br>- *C.T1.Q3.3.L*<br>O brofiad blaenorol o adael yr ysgol roeddent yn teimlo nad oedd unrhyw gyfeirio am newid cyrsiau na digon o wybodaeth am gyrsiau.<br><br>***Dilyniant:***<br>- *D.T1.Q3.8.L*<br>Roeddwn am weithio ym myd arlwyo felly siaradais â phobl yn y maes hwnnw.<br>- *C.T2.Q3.6.L*<br>Daeth cyfeiriad cwrs o ganlyniad i ymchwil myfyrwraig aeddfed ei hun.<br>- *C.T3.Q3.8.L*<br>Roeddwn am ddilyn diddordebau.<br>- *D.T3.Q3.7.L*<br>Mae pobl yn datblygu eu dewisiadau dysgu eu hunain.<br>- *D.T7.Q3.1.L*<br>Yr unigolyn sy’n dewis ei bynciau Safon Uwch. | |

**ATODIAD 5 – *Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Opsiynau, newid cyrsiau a symud ymlaen** | ***Dilyniant:***<br>- *C.T6.Q3.5.L*<br>Fel dysgwr sy'n oedolyn ac sydd wedi dewis y llwybr hwn, gallaf weld y byddaf yn aros ar y llwybr gyrfa hwn am fy mod wedi'i ddewis fel pwnc.<br>- *C.T2.Q3.11.L*<br>[*Roedd y dysgwr yn teimlo*] ei fod wedi cael gwybodaeth addas.<br>- *C.T9.Q2.2.L*<br>Cymhelliant i ddysgu / ennill.<br>- *C.T5.Q3.9.L*<br>Does dim diben cael swydd os nad yw'n talu'r biliau. Un tro, dywedodd fy mam ei bod yn waeth ei byd drwy weithio na hawlio budd-daliadau. | |
| **Gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddysgwyr ôl-16** | ***Colegau:***<br>- *C.T1.Q3.2.L*<br>Mae dysgwyr yn cytuno, a hwythau yn y coleg bellach, y gallant gysylltu â gwasanaethau myfyrwyr i gael gwybodaeth cyngor, arweiniad.<br><br>***Canolfan gwaith:***<br>- *C.T5.Q3.6.L*<br>Drwy rwydwaith rhieni. Y ganolfan gwaith yn dda i ddim.<br>- *C.T5.Q3.7.L*<br>Chewch chi ddim arian i'r mab mewn crèche am hanner dydd, yn ôl y ganolfan gwaith, mae'n teimlo ei bod wedi gwastraffu amser pan allai fod wedi bod yn astudio. Roeddwn yn teimlo fy mod ar y system ac nad cael unrhyw swydd oedd y llwybr roedd hi'n dymuno ei ddilyn.<br>- *C.T5.Q3.10.L*<br>Methu gwneud gwaith gwirfoddoli ychwanegol am fod y ganolfan gwaith yn gwrthod hynny, cewch eich annog i beidio ag ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol. | |

ATODIAD 5 – ***Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddysgwyr ôl-16** | ***Canolfan gwaith:***<br>- *C.T5.Q3.11.L*<br>Mae mam yn gwneud cwrs (mathemateg), wedi cael ei hannog i beidio â gwneud hynny am ei fod yn mynd ag amser y dylid ei dreulio yn chwilio am swyddi.<br><br>***Cael gafael ar gyngor – sylwadau cyffredinol:***<br>- *C.T6.Q3.8.L*<br>Diffyg cyngor ar yrfaoedd ar ôl addysg bellach. Dylai dysgu gydol oes olygu hynny! | |
| **Mesurau a allai helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da** | ***Diwrnodau agored / digwyddiadau:***<br>- *D.T1.Q3.4.L*<br>Dylai colegau a phrifysgolion gynnal nosweithiau agored i siarad â phobl am gyrsiau gwahanol.<br>- *D.T2.Q3.4.L*<br>Mae angen diwrnodau rhagflas ar bobl ifanc.<br>- *C.T8.Q3.3.L*<br>Mae'n beth da cael diwrnodau rhagflas ar gyfer opsiynau er mwyn gwybod am y pynciau.<br>- *D.T11.Q3.2.L*<br>Mae diwrnodau agored yn arbennig o bwysig o ystyried nad yw'r prosbectws yn rhoi llawer o wybodaeth.<br>- *D.T10.Q3.6.L*<br>Prifysgolion yn hygyrch i bobl yn y gymuned, e.e. ymweliadau maes o ysgolion cynradd i brifysgolion.<br>- *D.T10.Q3.7.L*<br>Dylid defnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael e.e. gall timau chwaraeon lleol ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon prifysgol; er mwyn pontio rhwng y brifysgol a'r gymuned leol a helpu plant i ymgyfarwyddo â'r brifysgol o oedran ifanc. Mae hyn yn osgoi sefyllfa lle mae prifysgolion yn cael eu hystyried yn amgylchedd, newydd anghyfarwydd wrth ystyried opsiynau AU. | |

**ATODIAD 5 – *Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Mesurau a allai helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da** | ***Profiad gwaith:***<br>- *C.T8.Q3.4.L*<br>Diffyg profiad gwaith. Mae Caerffili wedi rhoi terfyn ar y gronfa ddata – Gyrfa Cymru – yn dal i weithredu yn RhCT drwy'r cyngor – angen ei chyflwyno.<br>- *D.T1.Q3.5.L*<br>Gallu rhoi cynnig ar swyddi gwahanol er mwyn cael profiad ohoni.<br>- *D.T7.Q3.4.L*<br>Dylai Blwyddyn 11 anfon pobl i gael profiad gwaith, mae'n eu helpu i benderfynu beth maent am ei wneud. Pam bod hyn wedi dod i ben? Diwrnodau rhagflas efallai.<br>- *D.T7.Q3.5.L*<br>Dim disgwyliadau ffug.<br>- *D.T6.Q3.11.L*<br>Cyflwyno mwy o amser mewn profiad gwaith – mae'n rhy gyfyngedig. Ond mae angen iddo fod yn gefnogol, helpu i dywys, yn bwrpasol – mae angen mwy o brofiad ymarferol.<br>- *D.T7.Q3.6.L*<br>Dylai'r Comisiwn roi mwy o opsiynau i ddysgwyr drwy orfodi ysgolion i gynnig profiad gwaith.<br>- *C.T1.Q3.4.L*<br>Gall amgylchiadau personol eich tywys i ddewis y cwrs anghywir – wedi cael budd o brofiad gwaith / cyfweliadau.<br>- *C.T1.Q3.11.L*<br>*[Gofynnwyd y cwestiwn ynglŷn â phrofiad gwaith ym Mlwyddyn 10].* Roedd y rhan fwyaf wedi cael profiad gwaith am wythnos ond bu'n rhaid iddynt ddod o hyd iddo eu hunain.<br>- *C.T1.Q3.12.L*<br>Roedd rhai'n teimlo nad oedd wythnos yn ddigon hir.<br>- *C.T2.Q3.5.L*<br>Profiad gwaith – wedi gorfod dod o hyd i'r cyfleoedd hyn eich hun - gwneud cais eich hun – y brifysgol, rhaid i chi gyrraedd yno.<br>- *C.T6.Q3.1.L*<br>Ar ôl profiad gwaith dewisais weinyddu busnes. | ***Profiad gwaith:***<br>- *C.T2.Q3.7.P*<br>Dylid gwneud cyflogwyr yn fwy cyfrifol yn gymdeithasol am roi cyfleoedd [profiad *gwaith*] i chi yn hytrach na bod yn rhaid i chi ddod o hyd iddynt eich hun. |

**ATODIAD 5 – *Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Mesurau a allai helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da** | ***Cyflwyno cyrsiau / rhagflas:***<br>- *C.T7.Q3.3.L*<br>Gellid cael rhagflas neu gyflwyniad i gwrs er mwyn gweld a yw'n addas.<br>- *D.T1.Q3.1.L*<br>Cyflwyniad i'r cwrs a mwy o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth gan fyfyrwyr eraill.<br><br>***Ysgolion haf:***<br>- *C.T8.Q3.7.L*<br>Mwy o wybodaeth am ysgolion haf – dim byd wedi'i ddarparu yn yr ysgol, cefais wybod drwy hap a hynny am fod cymhelliant gennyf.<br><br>***Ymgysylltu gan gyflogwyr:***<br>- *D.T8.Q3.6.L*<br>Byddai mwy o fewnbwn a chymorth cyfundrefnol gan gyflogwyr a darparwyr yn fuddiol.<br>- *D.T8.Q3.8.L*<br>Byddai hyn yn fuddiol iawn,<br><br>***Modelau rôl / mentoriaid:***<br>- *C.T5.Q3.4.L*<br>Os daw rhywun i mewn i leoliad, gall fod yn ddefnyddiol i ddangos i chi.<br><br>***Gwybodaeth am ddilyniant gyrfa / rhagolygon cyflogaeth:***<br>- *D.T2.Q3.6.L*<br>Dylid rhoi mwy o wybodaeth i bobl ifanc am ddilyniant gyrfa, cyflog, ffordd o fyw, ac ati.<br>- *D.T2.Q3.2.L*<br>Maent am wybod beth fydd yn digwydd ar hyd y daith – amserlen.<br>- *D.T3.Q3.5.L*<br>Pam mynd i'r brifysgol. Cael swyddi / rhwydwaith cymdeithasol.<br>- *C.T2.Q3.4.L*<br>Pa geisiadau am swydd sy'n ymddangos ar ôl i chi orffen. | ***Ymgysylltu gan gyflogwyr:***<br>- *D.T8.Q3.7.P*<br>Mae logisteg a chostau hyn yn anodd [*cyfeiriad at fwy o gymorth gan gyflogwyr a darparwyr*]. Mae angen cyllid ychwanegol – er mwyn hwyluso hyn, ymweliadau ysgol a sesiynau galw heibio. |

ATODIAD 5 – ***Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Mesurau a allai helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da** | ***Gwefan / Rhyngrwyd / Cyfryngau cymdeithasol:***<br>- *D.T5.Q3.6.L*<br>Pan oeddwn am newid gyrfa, bu'n rhaid i mi wneud yr holl ymchwil fy hun a chael gwybodaeth gan y cyflogwyr / ar lafar. Byddai wedi bod wir yn ddefnyddiol pe bai gwefan i fynd iddi gan nad oeddwn yn yr ysgol mwyach.<br>- *D.T5.Q3.7.L*<br>Rydym yn grŵp eithaf rhagweithiol felly rwy'n credu ei bod yn wahanol i ni. Ond dylai fod gwefan sy'n cynnwys yr holl wybodaeth mewn un man, sy'n cael ei hysbysebu'n dda. Siop un stop.<br>- *C.T6.Q3.7.L*<br>Mae'n syniad da cael gwefan lle y gallwch nodi eich diddordebau a gall eich hysbysu am gyrsiau a'r holl wybodaeth gysylltiedig. E.e. cludiant, cyngor ariannol, cymorth gofal plant.<br>- *C.T4.Q3.6.L*<br>Y rhyngrwyd.<br>- *C.T7.Q3.8.L*<br>Mae angen gwefan sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ar gael am lwybrau mewn un man – fel UCAS e.e. hyd cwrs, mathau o aseiniadau, safbwynt myfyrwyr wedi'i chydgysylltu. Gellir cynnwys sgorau o bosibl a chymharu opsiynau'n uniongyrchol. Defnyddio technoleg 'sgwrsio byw' i'r eithaf. Mae dryswch ar hyn o bryd ynghylch ble i chwilio am wybodaeth.<br>- *C.T9.Q3.1.L*<br>Dylai fod man canolog i ddysgwyr – prentisiaethau gyda manylion rôl Gyrfa Cymru / Canolfan Byd Gwaith i roi gwybodaeth…. Sefydliad diduedd gydag unigolion y gallwch siarad â nhw fel myfyriwr – yn seiliedig ar y rhyngrwyd, negeseua neu e-bostio unrhyw bryd. Wedi'i amseru cyn TGAU.<br>- *C.T9.Q2.5.L*<br>Dylid cydnabod bod technoleg yn newid, mwy o opsiynau i bobl ifanc.<br>- *C.T10.Q3.4.L*<br>Chwilotwyr canolog ar gyfer darparwyr / cyrsiau / beth sydd ar gael. | ***Gwefan / Rhyngrwyd / Cyfryngau cymdeithasol:***<br>- *C.T8.Q3.6.P*<br>Darparu llwyfan ar-lein gyda'r holl ddarparwyr sy'n cynnig opsiynau – prentisiaethau, colegau, darparwyr hyfforddiant.<br>- *C.T9.Q2.9.P*<br>Creu rhwydwaith cymdeithasol i ddysgwyr, i siarad â chyfoedion. |

**ATODIAD 5 – *Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Mesurau a allai helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da** | ***Hysbysebu llwybrau gyrfa:***<br>- *C.T3.Q3.15.L*<br>Hysbysu'r holl ystod o brentisiaethau sydd ar gael.<br>- *C.T3.Q3.16.L*<br>Rhoi dolen yn ôl i'r ysgol ar gyfer Blwyddyn 9-10 (dewis opsiynau) ar ac ôl blwyddyn 11.<br>- *C.T4.Q3.7.L*<br>Hysbysebu opsiynau / cyrsiau yn well / copïau papur / y rhyngrwyd.<br>- *C.T5.Q3.5.L*<br>Mae angen mwy o hysbysebu.<br><br>***Llyfrgelloedd lleol:***<br>- *C.T4.Q3.5.L*<br>Llyfrgelloedd lleol.<br><br>***Cymorth i ddatblygu 'sgiliau bywyd' / 'sgiliau meddal':***<br>- *C.T5.Q3.2.L*<br>Dosbarth ar ben addysg – dosbarth ariannol, llwybrau ar gyfer dysgu sgiliau bywyd, 'dosbarth addysg bywyd', gwybod pa lwybrau i'w dilyn. Mwy o Gyrfa Cymru. Hoffwn fod wedi gwybod mwy. Roeddwn yn teimlo ar goll ar ôl yr ysgol, dyna pam fy mod wedi dod yn rhiant ifanc o bosibl, cam tuag at fyd oedolion, gan nad oedd gennyf lwybr i'w ddilyn.<br>- *D.T6.Q3.10.L*<br>Mwy o sgiliau gweithio mewn tîm.<br><br>***Ymgysylltu â dysgwyr hŷn:***<br>- *C.T5.Q3.8.L*<br>Mae'n teimlo na chaniateir i chi gael addysg os ydych yn hŷn. | ***Ymgysylltu â dysgwyr hŷn:***<br>- *C.T7.Q3.9.P*<br>Mae rheolau ynglŷn â chymhwysedd yn newid ar gyfer cyrsiau e.e. ar sail oedran, cymwysterau blaenorol. Mae rhai cydweithwyr yn y gwaith wedi'u gwahardd ar sail oedran. Nid yw rhai llwybrau mor amlwg e.e. prentisiaethau neu tybir nad ydynt ar gael / yn gymwys. Meddylfryd eu bod ond ar gael i bobl iau.<br>- *C.T7.Q3.10.P*<br>Gallai sefydliadau ddod atoch yn y gwaith neu'n lleol i roi cymhelliant / mwy o wybodaeth. |

ATODIAD 5 – ***Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Pwy ddylai roi cymorth?** | ***Llywodraeth Cymru / Comisiwn newydd — dylent chwarae rôl:***<br>- *D.T2.Q3.1.L*<br>Roedd pobl ifanc yn teimlo bod cynnydd o ran cyngor yn allweddol ac y dylai Llywodraeth Cymru chwarae rhyw fath o rôl. Mae angen i ofynion mynediad fod yn fwy eglur.<br>- *C.T7.Q3.7.L*<br>Dylai Llywodraeth Cymru chwarae rhan a dylai fod llawer o lwybrau i gael cyngor.<br>- *D.T4.Q3.1.L*<br>Dylai [*y Comisiwn*] chwarae rôl yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â dewis cyrsiau a darparwyr.<br>- *D.T11.Q3.1.L*<br>Mae pawb yn cytuno bod angen i'r Comisiwn fod yn rhan o'r broses er mwyn helpu.<br>- *D.T10.Q3.9.L*<br>O ran dysgwyr nad ydynt yn cael cymorth gan deuluoedd i benderfynu ar eu cyrsiau a'u gyrfaoedd yn y dyfodol, dylai'r Comisiwn chwarae rôl yn hyn o beth. Mae angen gwell cyngor ar yrfaoedd a chyrsiau yn gyffredinol er mwyn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau hyddysg.<br>- *C.T3.Q3.1.L*<br>Pan fyddwch yn gadael yr ysgol, nid ydych yn gwybod digon felly byddai'r Comisiwn newydd yn rhywun a allai gymryd yr awenau.<br>- *C.T3.Q3.6.L*<br>Byddai wedi bod yn fuddiol gwybod beth oedd yr holl opsiynau – efallai y gallai'r Comisiwn sicrhau bod y strwythurau hynny ar waith.<br><br>***Llywodraeth Cymru/ Comisiwn newydd – ddim yn siŵr / rôl i'w chwarae, ond…***<br>- *D.T3.Q3.6.L*<br>Dylai'r Comisiwn fod yn 'wrthrychol'.<br>- *C.T3.Q3.3.L*<br>Hoffwn wybod beth yw 'cylch gwaith' y Comisiwn. | ***Llywodraeth Cymru / Comisiwn newydd — dylent chwarae rôl:***<br>- *D.T5.Q3.3.P*<br>Dylai'r Comisiwn fod yn rhan o'r gwaith o sicrhau bod cyngor ar gael mewn ysgolion. |

**ATODIAD 5 – *Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Pwy ddylai roi cymorth?** | ***Llywodraeth Cymru / Comisiwn newydd – ddim yn y sefyllfa orau i gynghori:***<br>- *D.T3.Q3.4.L*<br>Nid yw'r Comisiwn newydd yn y sefyllfa orau – mentora mwy – gweithredu fel mentor.<br>- *D.T4.Q3.2.L*<br>Sut y gellir ymddiried ynddo [*y Comisiwn*] i wneud penderfyniadau 'da'.<br><br>***Llywodraeth Cymru / Comisiwn newydd – ddim yn y sefyllfa orau i gynghori:***<br>- *D.T10.Q3.1.L*<br>Ni ddylai'r Comisiwn newydd chwarae rhan, ni fyddai'n ddiduedd, gall fod gwrthdaro buddiannau. A fyddai'n deall anghenion dysgwyr?<br><br>***Gyrfa Cymru:***<br>- *D.T9.Q3.3.L*<br>Mae plant yn ansicr ynghylch y brifysgol, neu'r coleg neu hyfforddiant galwedigaethol ac ati, e.e. ar gyfer celf, p'un fyddai orau? Pwy allai eu cynghori? Gyrfa Cymru.<br>- *C.T1.Q3.5.L*<br>Dywedodd dysgwyr y byddent yn mynd at Gyrfa Cymru am gyngor ac y byddent yn argymell i unrhyw grŵp cyfoedion droi ato am gyngor.<br>- *C.T1.Q3.6.L*<br>Dysgwyr sy'n cael eu harwain gan rieni at Gyrfa Cymru.<br><br>***Ysgolion:***<br>- *C.T5.Q3.1.L*<br>Cyfrifoldeb ysgolion (mwy na dysgu Mathemateg, Saesneg i chi)<br>- *D.T6.Q3.9.L*<br>Ni ddylai ysgolion boeni am dablau cynghrair.<br>- *D.T3.Q3.2.L*<br>Trin graddau mewn ysgolion – ysgolion yn cael cymhelliant.<br>- *D.T8.Q3.10.L*<br>Mae'r ysgol yn rhoi mwy o ffocws ar sicrhau'r deilliannau. | ***Gyrfa Cymru:***<br>- *D.T11.Q3.3.P*<br>Atgyfnerthu rôl gwasanaeth ôl-16 Gyrfa Cymru.<br>- *C.T8.Q3.1.P*<br>Cynghorwyr ar yrfaoedd os nad yw'r ysgol yn darparu hynny.<br>- *D.T8.Q3.11.P*<br>Ble mae mewnbwn llwybrau a chyngor ar yrfaoedd? Gan bwy? |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
| --- | --- | --- |
| **Pwy ddylai roi cymorth?** | ***Ysgolion:***<br>- *C.T8.Q3.2.L*<br>Mae'r ysgol yn dangos tueddfryd – ddim yn gofyn i chi beth rydych am ei wneud – angen y cyngor yn gynnar – Blwyddyn 10/11 o bosibl – hyd yn oed yn gynt.<br><br>***Cyfoedion:***<br>- *C.T1.Q3.7.L*<br>Darparwr seiliedig ar waith wedi'i ddefnyddio gan rai ar y bwrdd drwy gael gwybod ar lafar gan grŵp ffrindiau, nid Gyrfa Cymru na Chynghorwyr Gyrfa.<br>- *C.T4.Q3.4.L*<br>Cymorth gan ffrindiau – prosesau sefydlu – hyblyg – yn rhoi cyfleoedd.<br>- *C.T9.Q2.7.L*<br>Mae angen rhywbeth er mwyn gofyn cwestiynau a rhoi arweiniad ar ddilyniant, gan gynnwys arweiniad – dysgwr arall o bosibl sydd ymhellach i fyny'r llwybr.<br><br>***Teulu:***<br>- *C.T2.Q3.10.L*<br>Nid yw llawer o rieni yn gwybod beth sy'n digwydd. Nid oes gan ei mam ddiddordeb yn ei llwybr gyrfa am nad yw'n deall yr yrfa.<br>- *D.T1.Q3.3.L*<br>Mae teuluoedd yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth.<br>- *D.T9.Q3.1.L*<br>Cymorth gan rieni.<br>- *D.T8.Q3.9.L*<br>Mae cefndir teuluol, magwraeth ac uchelgais yn bwysig, ond nid bob amser yn gadarnhaol – datblygu uchelgais?<br><br>***Anogwyr dysgu:***<br>- *C.T4.Q3.3.L*<br>Mae anogwyr dysgu yn rhoi cyfeiriadau. | ***Teulu:***<br>- *C.T1.Q3.1.P*<br>*Cwestiynau a godwyd gan weithiwr proffesiynol* – Os oeddech am newid cyrsiau / galwedigaeth, sut y byddech yn dod o hyd i sut i wneud hynny?<br>- *C.T1.Q3.9.P*<br>Mae pawb yn dibynnu ar ffrind neu deulu er mwyn cael gwybod pa grant sydd ar gael.<br>- *C.T2.Q3.9.P*<br>Mae cyfrifoldeb ar rieni mewn ysgolion.<br>- *C.T2.Q3.12.P*<br>A ydych yn credu bod rhieni yn deall prentisiaethau? |

**ATODIAD 5 – *Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Pwy ddylai roi cymorth?** | ***Cyd-gyfrifoldeb:***<br>- *D.T5.Q3.5.L*<br>Mae angen i ysgolion / Llywodraeth Cymru / cyflogwyr sicrhau bod y cymorth hwn ar gael.<br>- *D.T8.Q3.3.L*<br>A yw athrawon / y Comisiwn yn deall beth sydd orau i mi?<br>- *D.T8.Q3.13.L*<br>[*Cyfrifoldeb pwy?*] Fi, athrawon, rhai aelodau o'r teulu. Cymorth penodol gan staff hyfforddedig.<br>- *C.T7.Q3.2.L*<br>Dylai fod yn rhywun sy'n meddu ar wybodaeth fanwl am gyrsiau, a gyflogir gan ddarparwr o bosibl?<br><br>***Ddim yn gwybod:***<br>- *C.T3.Q3.2.L*<br>Yn y pen draw, ni wyddom pwy ddylai fod yn gyfrifol am hysbysu dysgwyr i symud ymlaen. | |
| **Argymhellion ynglŷn â darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad** | ***Amseru:***<br>- *D.T4.Q3.4.L*<br>Mae angen cael cyngor yn gynharach yn ystod gyrfa ysgol.<br>- *D.T10.Q3.4.L*<br>Mae angen i'r cyngor hwn gael ei roi dipyn yn gynharach nag sy'n digwydd ar hyn o bryd, oherwydd ar hyn o bryd nid yw'n cael ei roi tan adeg TGAU a'r pwysau i gael y graddau gorau.<br>- *D.T4.Q3.7.L*<br>Mae angen i ddewisiadau ac opsiynau ddigwydd ym Mlwyddyn 9 pan fydd dewisiadau TGAU yn cael eu gwneud.<br>- *D.T6.Q3.2.L*<br>Mae angen yr arweiniad ar gam cynnar iawn.<br>- *D.T11.Q3.4.L*<br>Mae angen mwy o wybodaeth yn gynharach. | |

ATODIAD 5 – ***Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Argymhellion ynglŷn â darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad** | ***Amseru:***<br>- *D.T6.Q3.3.L*<br>Dim ond swyddog gyrfaoedd grŵp a oedd â gwybodaeth gyfyngedig – mae angen cymorth unigol pellach yn gynharach.<br><br>***Diduedd:***<br>- *D.T4.Q3.5.L*<br>Mae angen bod yn amhleidiol.<br>- *D.T3.Q3.3.L*<br>1-1 tueddfryd. Oddi wrth y canol?<br>- *D.T3.Q3.1.L*<br>Arweiniad yn hytrach na dylanwad – wedi'i symleiddio.<br>- *D.T7.Q3.3.L*<br>Mae'n rhaid i'r cyngor fod yn ddiduedd, mae'r bobl ifanc yn gwybod beth sy'n fuddiol iddynt, nid oes rhaid dweud wrthynt.<br>- *C.T3.Q3.13.L*<br>Rhaid bod hwb canolog i'w ffonio / e-bostio ac ati, a all roi cymorth a gwybodaeth. Ar wahân i ble maent yn cael addysg — fel y bydd yn ddiduedd.<br>- *C.T3.Q3.14.L*<br>Mae didueddrwydd yn allweddol.<br>- *C.T10.Q3.1.L*<br>Byddai angen iddo fod yn gwbl ddiduedd a meddu ar wybodaeth helaeth am bob sector a darparwr. Perygl o dueddfryd.<br>- *D.T6.Q3.4.L*<br>Dylai'r dewisiadau ym Mlwyddyn 9 fod yn gliriach, sy'n gofyn am fwy o arweiniad ond gan [*berson*] allanol, nid rhiant / athro. Mae angen iddo fod yn fynych, nid rhywbeth untro.<br>- *C.T4.Q3.2.L*<br>Mae athrawon yn annog myfyrwyr i fynd i'r chweched dosbarth – llwybrau dewisol eraill.<br>- *C.T10.Q3.2.L*<br>Dylai gael ei arwain gan ddysgwyr a dylai gwybodaeth gael ei rhoi er budd pennaf y dysgwr yn hytrach na darparwyr ac ati neu er mwyn cyflawni targedau. | ***Diduedd:***<br>- *D.T2.Q3.5.P*<br>Gall colegau gam-gynghori er mwyn llenwi lleoedd. |

**ATODIAD 5 – *Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau da o ran eu cwrs/cyrsiau neu ddarparwr/ddarparwyr***

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Argymhellion ynglŷn â darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad** | ***Unigoledig:***<br>- *D.T6.Q3.8.L*<br>Dylai pob cymorth fod yn unigoledig.<br>- *C.T2.Q3.1.L*<br>Dylid rhoi'r cymorth i bob myfyriwr sydd ei angen arno.<br>- *D.T6.Q3.7.L*<br>Dylid ei fesur fel unigolyn.<br>- *D.T8.Q3.12.L*<br>Dylech gael eich annog i ddatblygu llwybr gyrfa personol – I ble rydych am fynd? Beth yw eich diddordeb a'ch uchelgais? Beth sydd ei angen arnoch i gyrraedd eich nod? Cymorth?<br>- *C.T5.Q3.3.L*<br>Un i un. Cyfryngau cymdeithasol?<br>- *D.T2.Q3.3.L*<br>Dylai darparwyr ofyn am gymaint o wybodaeth â phosibl gan y dysgwyr er mwyn i'r cyngor gael ei deilwra'n well.<br>- *C.T7.Q3.5.L*<br>Gallai canolfan ddydd neu weithiwr cymdeithasol helpu am eu bod yn eich adnabod.<br>- *D.T8.Q3.1.L*<br>Mae cymorth i'm tywys yn beth da - ond a gaf fy nhywys i'r cyfeiriad cywir? A gaf y wybodaeth gywir i fynd i'r cyfeiriad cywir?<br>- *D.T4.Q3.3.L*<br>Bydd yn gostus rhoi cyngor da wedi'i bersonoli sy'n briodol i bob dysgwr.<br><br>**Lleol:**<br>- *C.T7.Q3.1.L*<br>Person lleol yn agos i'r cartref sydd â gwybodaeth leol am yr ardal, darparwyr.<br>- *C.T7.Q3.4.L*<br>Mae adran ehangu mynediad Caerdydd yn mynd allan i ysgolion a'r gymuned leol er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor. | |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Argymhellion ynglŷn â darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad** | ***Wyneb yn wyneb:***<br>- *C.T8.Q3.5.L*<br>Byddai'n well gennyf gymorth wyneb yn wyneb – ddim yn cael atebion ar-lein bob tro.<br>- *C.T9.Q2.6.L*<br>Cael rhywun i roi cyngor, cymorth a chymhelliant.<br><br>***Pwynt cyswllt safonol / canolog:***<br>- *C.T9.Q2.8.L*<br>Mae angen rhaglenni ar wahân ond yr un broses. Un corff o wybodaeth.<br>- *C.T9.Q2.4.L*<br>[*Mewn ymateb i gwestiwn gan weithiwr proffesiynol, C.T9.Q3.3.P, "Sut cawsant afael ar wybodaeth ]* Yr hen ysgol; prosbectws i oedolion; dylai fod mwy o gyngor ar gael am nad oes ganddynt bwynt canolog na gwybodaeth gefndir. | ***Wyneb yn wyneb:***<br>- *C.T2.Q3.8.P*<br>Gyrfaoedd – ar-lein neu eistedd wyneb yn wyneb. Cymorth dynol – mae [*dysgwyr*] am gael y cymorth hwnnw – gofyn mwy o gwestiynau, gwell gwybodaeth. |
| **Sylw aneglur / ddim yn siŵr sut i'w gategoreiddio at ddibenion gwerthuso** | - *D.T4.Q3.6.L*<br>Wedi ceisio o'r blaen, ddim yn gweithio.<br>- *D.T5.Q3.1.L*<br>Ni wn pam na fyddech yn gwneud hynny. Pam byddech yn gadael i bobl wneud hynny'n ddall?<br>- *D.T7.Q3.7.L*<br>Gormod o bwyslais ar wisg ysgol a gwallt. Byddai dysgwyr yn ymlacio'n fwy ac yn dysgu mwy pe bai llai o bwyslais ar wisg ysgol. | |

# ATODIAD 6

## Adborth ar thema:

## *Y Gymraeg mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol*

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Pwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg** | ***Sylwadau cadarnhaol am bwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg:***<br>- *D.T9.Q4.2.L*<br>Mae'n beth da dysgu Cymraeg er mwyn deall pawb; cynigion busnes; cyfleoedd swydd.<br>- *C.T1.Q4.9.L*<br>Roedd dysgwr arall yn teimlo y dylai fod yn orfodol yn yr ysgol gan ei fod yn teimlo y byddai'n rhoi'r gorau i'r pwnc, am ei bod yn anodd ei dysgu.<br>- *C.T1.Q4.3.L*<br>Hoffwn ddychwelyd at siarad Cymraeg bob dydd.<br>- *C.T2.Q4.6.L*<br>Y peth gorau yw darparu yn Gymraeg / gall aseiniad gael ei ysgrifennu yn Gymraeg ac yna bydd y coleg yn trefnu i'r rhain gael eu cyfieithu.<br>- *C.T2.Q4.8.L*<br>Mae [*Cymraeg*] yn orfodol mewn ysgolion – dylai barhau yn AB – mynediad cyfartal – annog y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg i'w dysgu.<br>- *C.T2.Q4.9.L*<br>Dylai [safonau'r Gymraeg] gael eu hannog yn AB.<br>- *C.T2.Q4.10.L*<br>Mae [safonau'r Gymraeg] yn rhywbeth i ymfalchïo ynddo.<br>- *C.T3.Q4.9.L*<br>Dylai fod mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae angen o leiaf hanner yr un.<br>- *C.T5.Q4.7.L*<br>Rwy'n credu y byddai'n fuddiol dysgu i'r rhai sydd am wneud hynny.<br>- *C.T5.Q4.8.L*<br>Dylai fod cyfleoedd i siarad Cymraeg y tu allan.<br>- *C.T8.Q3.3.L*<br>Byddai wedi bod yn braf cael dewis dysgu.<br>- *C.T9.Q4.2.L*<br>Dylid caniatau i siaradwyr Cymraeg ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>- *C.T9.Q4.7.L*<br>Pwysig iawn, mae'r Gymraeg yn hanesyddol, mae angen cael ei chategoreiddio o ran y manteision ar gyfer y dyfodol. | |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Pwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg** | ***Sylwadau cadarnhaol am bwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg:***<br>- *C.T9.Q4.8.L*<br>Pwysigrwydd Cymraeg i siaradwyr Cymraeg – dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>- *D.T5.Q4.2.L*<br>Mae angen i fwy o werth gael ei roi ar y Gymraeg fel sgil yn y gweithle.<br>- *D.T7.Q4.3.L*<br>Byddai rhywfaint o hyfforddiant dwyieithog yn ddefnyddiol.<br>- *D.T6.Q4.6.L*<br>Hoffwn gael cyfle i ddysgu mwy o Gymraeg.<br>- *D.T3.Q4.3.L*<br>Y brifysgol – yn edifarhau nad oeddwn wedi dysgu mwy o Gymraeg yn yr ysgol.<br>- *D.T7.Q4.2.L*<br>Mae'n bwysig oherwydd mae ei hangen.<br>- *D.T7.Q4.4.L*<br>Dylai gael ei hannog ond dylai fod yn opsiwn i'r unigolyn.<br>- *D.T7.Q4.5.L*<br>Dylid cael ei chynnig ym mhobman fel opsiwn. Yn deall nad oes modd cynnig rhai prentisiaethau technegol yn ddwyieithog bob amser.<br>- *D.T10.Q4.2.L*<br>Mae rhai wedi cael profiad o beidio â bod yn llwyddiannus mewn cyfweliadau swydd am nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg felly mae'r cyfle i'w dysgu yn hollbwysig<br>- *C.T3.Q4.6.L*<br>Dileu'r opsiwn. Ei gwneud yn orfodol fel mathemateg.<br><br>***Safbwyntiau niwtral / cymysg am bwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg:***<br>- *D.T8.Q4.3.L*<br>Mae pwysigrwydd astudio yn Gymraeg yn dibynnu ar y llwybr gyrfa yr hoffech ei ddilyn.<br>- *C.T1.Q4.8.L*<br>Mae dysgwyr yn teimlo y dylai'r Gymraeg fod yn ddewisol yn hytrach na gorfodol mewn ysgolion. | ***Safbwyntiau niwtral / cymysg am bwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg:***<br>- *D.T8.Q4.5.P*<br>*[Mewn ymateb i D.T8.Q4.4.L]* Efallai fod hynny'n wir am yr ardaloedd arfordirol ond nid yng nghefn gwlad ac nid ymhlith y boblogaeth hŷn. |

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Pwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg** | ***Safbwyntiau niwtral / cymysg am bwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg:***<br>- *C.T2.Q4.3.L*<br>Barn gymysg. Mae merch ei chwaer yn mynd i ysgol Gymraeg ond mae'n cael anhawster gwirioneddol gyda Saesneg.<br>- *C.T2.Q4.5.L*<br>Ni fydd rhai swyddi yn gofyn am siaradwyr Cymraeg.<br>- *D.T6.Q4.14.L*<br>Bydd yn teithio sut bynnag ac yn gweithio y tu allan i Gymru oherwydd cyfleoedd cyflogaeth.<br>- *C.T4.Q4.6.L*<br>Cymraeg yn bwysig? Na – yn dibynnu ar ba yrfa yn y dyfodol – athro Cymraeg?<br>- *C.T5.Q4.4.L*<br>Nid yw llawer o bobl yn siarad Cymraeg yn fy ardal i.<br>- *C.T9.Q4.5.L*<br>Ar sail ysgol unigol - nid yw'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn poeni am gael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae'n rhan o ddiwylliant a threftadaeth Cymru - angen cydbwysedd.<br>- *D.T1.Q4.2.L*<br>Dylent gael y cyfle ond dylid ystyried Saesneg hefyd am ei bod yn iaith a siaredir mor gyffredin.<br>- *D.T10.Q4.8.L*<br>Dylai fod modd i chi astudio unrhyw gwrs mewn unrhyw sefydliad yn Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae teimlad bod yn rhaid i chi astudio dewis cyfyngedig o gyrsiau mewn sefydliadau penodol er mwyn gallu gwneud hyn.<br>- *D.T2.Q4.5.L*<br>Dywedodd rhai pobl ifanc fod ysgolion wedi dweud wrthynt y bydd eu dewisiadau wedi'u cyfyngu os nad ydynt yn medru'r Gymraeg.<br>- *D.T3.Q4.7.L*<br>A yw 'ansawdd' yr athro yn bwysicach (gwybodaeth pwnc) na'r gallu i siarad Cymraeg? | |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Pwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg** | ***Safbwyntiau niwtral / cymysg am bwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg:***<br>- *D.T4.Q4.2.L*<br>Cyhyd ag y caiff y Gymraeg ei pharchu, does dim gwahaniaeth gennyf. Yn ymwybodol nad yw pob tiwtor yn ddwyieithog ac nad yw pob dysgwr yn siarad Cymraeg.<br>- *D.T7.Q4.6.L*<br>Gallai fod yn rhwystr mewn rhai galwedigaethau — ond mae'n bwysig yn sicr.<br>- *D.T7.Q4.7.L*<br>Ni ddylai fod yn orfodol — mae'n ddefnyddiol ond nid yw'n angenrheidiol. Mae'n bwysicach dysgu am dreftadaeth Cymru na'r iaith. Yn bwysig, ond ddim yn rhy ddwys.<br>- *C.T3.Q4.4.L*<br>Mae pwysau'r Gymraeg yn cynyddu'n enfawr. Dyblu cost gwaith, dyblu terfynau amser. A ydym yn gadael pethau ar y lefel hon a gadael iddi dyfu? Neu a ydym yn ei gorfodi ymhellach ar bobl? Gall gorfod gwneud cwrs TGAU llawn wthio pobl i'r cyfeiriad arall.<br><br>***Sylwadau negyddol am bwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg:***<br>- *D.T8.Q4.4.L*<br>Nid yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn bwysig i'w dysgu gan mai ychydig iawn o gyfleoedd sydd i siarad Cymraeg – felly pam dylai gael ei defnyddio?<br>- *D.T9.Q4.5.L*<br>Mae Tsieinëeg yn well o ran busnes.<br>- *C.T1.Q4.1.L*<br>Gwers orfodol yn unig oedd Cymraeg, roedd y dysgwr yn teimlo nad oedd am gael ei orfodi i sefyll arholiad Cymraeg a hoffai fod wedi rhoi'r gorau iddi ym Mlwyddyn 9.<br>- *C.T1.Q4.2.L*<br>Roeddent yn teimlo ar y bwrdd mai 'iaith sy'n marw' yw'r Gymraeg.<br>- *C.T1.Q4.6.L*<br>Roedd rhai yn teimlo y gall fod yn rhwystr iddynt ddysgu drwy gyfrwng Cymraeg o ran gwneud penderfyniadau i fynd i'r brifysgol yn Lloegr. | |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
| --- | --- | --- |
| **Pwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg** | ***Sylwadau negyddol am bwysigrwydd dysgu / astudio yn Gymraeg:***<br>- *C.T7.Q4.1.L*<br>Roedd un dysgwr yn amharod i orfod siarad / dysgu Cymraeg. Roedd yn teimlo ei fod yn cael ei drin yn wahanol am ddymuno defnyddio Saesneg ac wedi'i orfodi i ddysgu Cymraeg. Drwy weithio gyda siaradwyr Cymraeg, yn dechrau adnabod geiriau Cymraeg.<br>- *C.T9.Q4.1.L*<br>Wedi cael fy ngorfodi i ddysgu Cymraeg, byddai'n well gennyf gael fy ngorfodi i ddysgu iaith wahanol.<br>- *D.T6.Q4.9.L*<br>Gall fod yn anfantais i siaradwyr rhugl pan fyddant yn mynd i ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg.<br>- *C.T1.Q4.5.L*<br>Profiad dysgwyr o fynd i ysgol Gymraeg; maent yn cael anhawster pan fyddant yn mynd i'r coleg am eu bod yn cael anhawster gyda Saesneg.<br>- *C.T7.Q4.3.L*<br>Mae un dysgwr yn siarad Cymraeg yn rhugl ond yn gwneud pethau yn haws yn Saesneg. | |
| **Cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg** | ***Sylwadau cadarnhaol am y cyfleoedd sydd ar gael:***<br>- *D.T1.Q4.1.L*<br>Maent yn ceisio cynnwys y Gymraeg yn y coleg.<br>- *D.T3.Q4.1.L*<br>Mae opsiynau AB / cyfrwng Cymraeg ar gael yn y chweched dosbarth.<br>- *D.T5.Q4.3.L*<br>Caiff rhai o'r cyrsiau yn ein coleg eu darparu'n ddwyieithog ond dim ond os yw ein tiwtor yn siarad Cymraeg.<br>- *C.T1.Q4.4.L*<br>Mae dysgwyr yn cael dewis rhai gwersi yn Gymraeg yn y coleg.<br>- *C.T2.Q4.4.L*<br>Mae opsiwn ar gael i siarad Cymraeg. | ***Sylwadau cadarnhaol am y cyfleoedd sydd ar gael:***<br>- *D.T8.Q4.1.P*<br>*Nodwyd ar ôl cwestiwn i ddysgwyr o amgylch y bwrdd* – 2/6 o ddysgwyr yn siarad Cymraeg yn rhannol. Roedd 5/6 o ddysgwyr wedi cael cyfle i astudio yn Gymraeg.<br>- *C.T1.Q4.7.P*<br>Mae cyfleoedd i bobl siarad Cymraeg os |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg** | ***Sylwadau cadarnhaol am y cyfleoedd sydd ar gael:***<br>- *C.T3.Q4.1.L*<br>Roedd opsiwn bob amser ar gael yn y brifysgol i ddysgu yn Gymraeg. Hefyd gyda darparwr hyfforddiant.<br>- *C.T6.Q4.1.L*<br>Siaradwr Cymraeg yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd ac wedi cael cyfle i astudio yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn ddwyieithog. Llawer o ffyrdd / cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg.<br>- *C.T3.Q4.3.L*<br>Mae digon o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg a dysgu yn Gymraeg.<br>- *D.T1.Q4.3.L*<br>Mae'n dibynnu ar yr ardal yng Nghymru.<br>- *D.T2.Q4.2.L*<br>Teimlwyd bod darpariaeth os oedd dysgwyr am ei chael ond er enghraifft, yn Airbus, Saesneg yw'r brif iaith.<br>- *D.T8.Q4.10.L*<br>Cyfle cyfartal – ie. A yw'r rhain ar gael i bawb? Na – yn gyfyngedig yn Gymraeg.<br>- *C.T2.Q4.7.L*<br>ACT – ddim yn gwybod a ydynt yn cynnig cyrsiau yn Gymraeg.<br>- *C.T8.Q4.1.L*<br>Yn yr ysgol (Caerffili) nid yw pob myfyriwr yn gallu astudio Cymraeg – nid yw'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn gallu defnyddio / astudio yn Saesneg am nad ydynt yn siŵr beth yw'r cyfieithiad.<br><br>***Safbwyntiau niwtral / cymysg am y cyfleoedd sydd ar gael:***<br>- *D.T4.Q4.7.L*<br>Mwy o gyfleoedd anffurfiol i siarad ac ymarfer Cymraeg.<br>- *D.T8.Q4.2.L*<br>Dywedwyd wrthyf os nad oedd fy Nghymraeg yn ddigon da yn siarad Cymraeg, yna nad oedd modd astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. | teimlant eu bod am fyw a gweithio yng Nghymru. Mae canran fawr o swyddi gwasanaethau cyhoeddus, neu'r BBC. Targed wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg.<br>- *C.T8.Q3.2.P*<br>Roedd dysgwyr wedi cael cyfle i ddysgu yn Gymraeg.<br><br>***Safbwyntiau niwtral / cymysg am y cyfleoedd sydd ar gael:***<br>- *D.T11.Q4.2.P*<br>Mae prifysgolion yn cynnig rhai cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ond mae prinder staff sy'n ddwyieithog i'w hasesu. |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg** | ***Safbwyntiau niwtral / cymysg am y cyfleoedd sydd ar gael:***<br>- *D.T10.Q4.1.L*<br>Cafodd un dysgwr gyfle i ddysgu Cymraeg fel rhan o'i chwrs, ond roedd y gwersi yn gwrthdaro â darlithoedd fel rhan o'r cwrs.<br>- *C.T3.Q4.13.L*<br>Mae gan rai bwrdeistrefi lefel gwahanol o Gymraeg.<br><br>***Sylwadau negyddol am y cyfleoedd sydd ar gael:***<br>- *D.T4.Q4.1.L*<br>Opsiynau ddim yn gyfartal mewn gwirionedd. Er y gallwn wneud yr aseiniadau yn Gymraeg - nid yw'r cwrs yn Gymraeg. Mae'n gwneud pethau'n lletchwith – fe wnes i'r cwrs yn Saesneg yn y diwedd.<br>- *D.T4.Q4.3.L*<br>Heb ei gynnig – dim dewis. Siaradwr Cymraeg iaith gyntaf o dan anfantais oherwydd cyrsiau cyfrwng Saesneg.<br>- *D.T5.Q4.1.L*<br>Nid yw ein prentisiaethau ar gael yn Gymraeg.<br>- *D.T2.Q4.3.L*<br>Byddai staff yn Airbus yn cael anhawster os mai Cymraeg oedd yr iaith gyntaf.<br>- *C.T3.Q4.10.L*<br>Mae llawer o hyfforddwyr yn dod o wledydd eraill y DU, arbenigwyr pwnc, ac ni allant roi hyfforddiant yn Gymraeg.<br>- *D.T6.Q4.3.L*<br>Heb ei gynnig yn yr ysgol uwchradd a oedd yn golygu bod rhai o dan anfantais.<br>- *D.T6.Q4.4.L*<br>Dim digon o gyfleoedd Cymraeg.<br>- *D.T6.Q4.12.L*<br>Dim digon o Gymraeg mewn ysgolion. Dylid ystyried agweddau daearyddol – yn byw yn y gogledd-orllewin, mae myfyrwyr o Gymru a Lloegr. | ***Sylwadau negyddol am y cyfleoedd sydd ar gael:***<br>- *C.T9.Q4.9.P*<br>Dim parhad ar ôl addysg orfodol yn Gymraeg.<br>- *D.T11.Q4.1.P*<br>Y Brifysgol Agored – Saesneg yn bennaf. |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg** | ***Sylwadau negyddol am y cyfleoedd sydd ar gael:***<br>- *D.T7.Q4.1.L*<br>Ddim yn opsiwn gan rai darparwyr.<br>- *D.T10.Q4.3.L*<br>Roedd un dysgwr a oedd am gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg wedi wynebu anawsterau: roedd y deunydd cwrs i gyd yn Saesneg, roedd rhestrau darllen ond yn cynnwys llyfrau yn Saesneg, ac roedd yn rhaid i aseiniadau yn Gymraeg gael eu cyflwyno bythefnos cyn yr aseiniad cyfatebol yn Saesneg.<br>- *D.T10.Q4.4.L*<br>Profiadau eraill o gael gwybod y gallwch gael adnoddau yn Gymraeg, ond pan ofynnir amdanynt, nid oedd y deunydd ar gael.<br>- *C.T3.Q4.2.L*<br>Problem yn y brifysgol, dewisais ddysgu yn Gymraeg, ond gallai’r aseiniadau gael eu hysgrifennu yn Gymraeg – ond mae’n rhaid ei gyfieithu i’r Saesneg i’r arholwr.<br>- *D.T10.Q4.5.L*<br>Hefyd, dywedwyd wrth un dysgwr nad oedd yn cael cyflwyno aseiniadau yn Gymraeg ac na ddylai siarad Cymraeg ar ei gwrs.<br>- *D.T10.Q4.7.L*<br>Cyfrifoldeb ar sefydliadau i ddarparu deunyddiau ac adnoddau’n rhagweithiol yn y ddwy iaith fel y gall dysgwyr ddewis pa iaith yr hoffent astudio drwyddi, yn hytrach na gorfod gofyn o hyd am ddeunyddiau yn Gymraeg ac weithiau ddarganfod nad yw’r deunyddiau hynny ar gael.<br>- *C.T2.Q4.1.L*<br>Ddim wedi cael y gefnogaeth i siarad Cymraeg (ACT).<br>- *C.T4.Q4.1.L*<br>Ysgol gyfun – dim opsiwn – ysgolion Cymraeg ar wahân.<br>- *C.T5.Q4.3.L*<br>Hoffwn gael cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ond nid yw’r cyfleoedd erioed wedi cael eu cynnig. | |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg** | ***Sylwadau negyddol am y cyfleoedd sydd ar gael:***<br>- *C.T6.Q4.2.L*<br>Heb gael yr opsiwn i ddysgu Cymraeg yn yr ysgol. Cael ieithoedd yn anodd, yn teimlo o dan anfantais par: blaenoriaethau yn cael eu rhoi i siaradwyr Cymraeg.<br>- *C.T6.Q4.3.L*<br>Yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro nid wyf yn cael yr opsiwn i ddysgu Cymraeg ochr yn ochr â'r hyn rwyf yn ei astudio.<br>- *C.T7.Q4.4.L*<br>Ni chafodd dysgwr arall gyfle i ddysgu Cymraeg yn yr ysgol am fod yn rhaid iddo fynd i ddosbarthiadau cymorth ychwanegol.<br>- *C.T10.Q4.2.L*<br>Gormod o gyfleoedd.<br>- *D.T4.Q4.8.L*<br>Mae angen gwneud mwy o waith y tu allan i'r lleoliad addysg gyda chymunedau mwy cynhwysol h.y. mwy caredig – helpu i gynnwys siaradwyr Saesneg. | |
| **Ansawdd / Perthnasedd addysgu'r Gymraeg ar hyn o bryd** | ***Sgwrsio yn Gymraeg:***<br>- *D.T4.Q4.5.L*<br>Mwy o ddosbarthiadau Cymraeg yn haws – yn orfodol. Roedd lefel addysgu'r Gymraeg yn amrywio. Dylai'r ffocws ar sgwrsio yn Gymraeg fod yn gryfach.<br>- *D.T4.Q4.6.L*<br>Mae addysgu'r Gymraeg yn canolbwyntio ar lwyddo yn yr arholiad yn hytrach na sgwrsio yn Gymraeg a'r Gymraeg fel iaith sgwrsio a chyfathrebu.<br>- *D.T8.Q4.6.L*<br>Nid yw'r ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn paratoi pobl ifanc i ddysgu a siarad Cymraeg.<br><br>***Cymraeg yn y gweithle:***<br>- *D.T4.Q4.9.L*<br>Y rhai sy'n gadael yr ysgol – ddim yn cael Cymraeg yn y gweithle. | ***Sgwrsio yn Gymraeg:***<br>- *D.T8.Q4.9.P*<br>Mae person ifanc ar y bwrdd wedi ennill gradd B mewn TGAU Cymraeg ond nid yw'n teimlo'n gyfforddus / hyderus yn siarad Cymraeg? Beth mae'r addysg wedi'i gyflawni?<br>- *D.T8.Q4.12.P*<br>Dylid adolygu'r ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu. |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Ansawdd / Perthnasedd addysgu'r Gymraeg ar hyn o bryd** | ***Cymraeg yn y gweithle:***<br>- *D.T3.Q4.6.L*<br>Mae cynnwys o fath Cymraeg yn y gweithle yn well. Beth sy'n cael ei addysgu? A yw'n ddigonol?<br>- *C.T1.Q4.10.L*<br>Pe bai dysgwyr wedi dod yn ymwybodol o'r cyfleoedd swyddi yn y dyfodol byddent wedi cymryd Cymraeg fel pwnc yn fwy o ddifrif yn yr ysgol.<br>- *D.T3.Q4.5.L*<br>Mae cymwysterau NVQ Cymraeg yn fwy perthnasol na TGAU.<br>- *C.T7.Q4.5.L*<br>Mae sefydliadau sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn disgwyl i'w staff fod yn ddwyieithog er mwyn cynorthwyo cwsmeriaid yn eu dewis iaith.<br>- *C.T6.Q4.4.L*<br>Mae'n teimlo'n wahaniaethol bod rhai swyddi ond ar gael i siaradwyr Cymraeg yn unig.<br><br>***Sylwadau cyffredinol am ansawdd / perthnasedd addysgu'r Gymraeg:***<br>- *C.T3.Q4.14.L*<br>Mae angen diwygio'r ffodd y caiff y Gymraeg ei haddysgu.<br>- *D.T1.Q4.4.L*<br>Ni chaiff y Gymraeg ei haddysgu mewn ysgolion er mwyn eich helpu yn y dyfodol.<br>- *C.T3.Q4.16.L*<br>Caiff TGAU Cymraeg ei addysgu'n wahanol i Safon Uwch.<br>- *C.T4.Q4.7.L*<br>Nid yw athrawon yn ymddiddori mewn addysgu'r Gymraeg.<br>- *C.T4.Q4.8.L*<br>- *D.T10.Q4.6.L*<br>Dylai darlithwyr gyflwyno termau Cymraeg sylfaenol mewn cyrsiau fel y gall pobl ddysgu terminoleg allweddol yn y ddwy iaith.<br>Mae angen i'r Gymraeg fod yn fwy diddorol [e.e. diwylliant Cymru]. Dim ond wedi'i dysgu ar gyfer arholiadau. | ***Cymraeg yn y gweithle:***<br>- *C.T9.Q4.10.P*<br>Hyder siaradwyr Cymraeg i gael swydd. |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Ansawdd / Perthnasedd addysgu'r Gymraeg ar hyn o bryd** | ***Sylwadau cyffredinol am ansawdd / perthnasedd addysgu'r Gymraeg:***<br>- *D.T6.Q4.5.L*<br>Cyfleoedd gorfodol yn rhoi gormod o wybodaeth, angen bod yn hwyl!! | |
| **Gwella'r cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a manteisio ar y cyfleoedd hyn** | ***Cyllid / adnoddau ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg:***<br>- *C.T2.Q4.13.L*<br>[*Safonau'r Gymraeg* ] cyllid rhannol – yn galonogol i helpu teuluoedd.<br>- *C.T3.Q4.11.L*<br>Dylai'r Comisiwn roi mwy o gyfleoedd cyllido i staff allu cyflawni. Cymhellion ariannol.<br>- *D.T11.Q4.3.L*<br>Prinder adnoddau o ran dysgu ac adolygu mewn perthynas â'r Gymraeg.<br>- *C.T4.Q4.3.L*<br>Angen adnoddau – athrawon sy'n gallu cyflwyno pynciau yn Gymraeg.<br>- *C.T9.Q4.4.L*<br>Mae darparu yn Gymraeg yn anodd, cyllid, diffyg tiwtoriaid.<br>- *D.T5.Q4.4.L*<br>Mae angen mwy o gyllid ar gyfer cyrsiau galwedigaethol ac AB drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>- *D.T1.Q4.8.L*<br>Efallai nad yw'n hyfyw yn ariannol.<br>- *C.T9.Q4.6.L*<br>Cyllid sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y Gymraeg – yn gymesur?<br>- *C.T9.Q4.12.L*<br>Arian sy'n cael ei wario ar y Gymraeg, pobl yn cael eu gorfodi i'w hastudio.<br>- *C.T9.Q4.13.L*<br>Arian wedi'i neilltuo, os na chaiff ei ddefnyddio, dylid ailfuddsoddi'r arian.<br>- *C.T10.Q4.1.L*<br>Mae faint o arian a neilltuir ar gyfer y Gymraeg yn anghymesur â'r rhai sy'n ei siarad. | ***Cyllid / adnoddau ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg:***<br>- *D.T2.Q4.4.P*<br>Mae rhai prifysgolion yn cynnig cymorth ariannol os bydd myfyrwyr yn astudio modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>- *C.T7.Q4.2.P*<br>Prinder tiwtoriaid Cymraeg i gyflwyno cyrsiau e.e. Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. Mae'n anodd i sefydliad bach lle mae un tiwtor fesul pwnc ac nad ydynt yn ddwyieithog. Mae'n bwysig bod y cwrs cyfan ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, nid dim ond modiwlau. Dim digon o adnoddau na thiwtoriaid ar gael yn Gymraeg. |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Gwella'r cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a manteisio ar y cyfleoedd hyn** | ***Cyllid / adnoddau ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg:***<br>- *C.T10.Q4.3.L*<br>Mae gormod o arian yn cael ei wario ar sicrhau bod pob cwrs ar gael yn Gymraeg pan fo dysgwyr yn cael anhawster mewn pynciau eraill.<br><br>***Darpariaeth:***<br>- *C.T4.Q4.2.L*<br>Opsiynau lleoliadau cyfrwng Cymraeg.<br>- *D.T3.Q4.4.L*<br>Yn dymuno bod mwy o addysgu yn Gymraeg os yw'n briodol.<br>- *D.T9.Q4.3.L*<br>Dylid cynnwys y Gymraeg mewn cwrs amlieithog.<br>- *D.T6.Q4.11.L*<br>Coleg cyfrwng Cymraeg (nid dim ond ysgolion Cymraeg).<br>- *D.T3.Q4.2.L*<br>Mynediad i ddysgu'r iaith.<br>- *D.T6.Q4.7.L*<br>Mae angen i'r Gymraeg fod yn gyson, nid yn ysbeidiol.<br>- *C.T3.Q4.5.L*<br>Pam bod rhai yn astudio'r cwrs llawn ac eraill yn astudio'r cwrs byr?<br><br>***Hybu'r Gymraeg:***<br>- *C.T4.Q4.4.L*<br>Hysbysebu – cyfleoedd yn Gymraeg.<br>- *D.T11.Q4.4.L*<br>Mae angen i'r Comisiwn hybu'r Gymraeg – cyfleoedd a manteision bod yn ddwyieithog.<br><br>***Oedran:***<br>- *D.T1.Q4.5.L*<br>Rydym yn cael ein magu yn siarad Saesneg, nid Cymraeg o oedran cynnar yn wahanol i'r Almaen. | ***Darpariaeth:***<br>- *D.T8.Q4.11.P*<br>Dylid defnyddio cyfleoedd trochi'n llwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.<br>- *C.T3.Q4.7.P*<br>Pe bai'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd, byddai'n tyfu'n naturiol.<br><br>***Hybu'r Gymraeg:***<br>- *D.T8.Q4.8.P*<br>Angen mwy o ymwybyddiaeth a hyrwyddo drwy rieni i hybu'r Gymraeg.<br>- *C.T9.Q4.3.P*<br>Dysgwr sy'n oedolyn ddim yn gweld bod galw yng Nghaerdydd i addysgu yn Gymraeg. |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Gwella'r cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a manteisio ar y cyfleoedd hyn** | ***Oedran:***<br>- *D.T4.Q4.4.L*<br>Dylid hyrwyddo mwy o ddosbarthiadau i ddysgu'r Gymraeg. Angen ei dysgu ar oedran cynnar.<br>- *D.T6.Q4.8.L*<br>Angen ei dysgu o oedran cynnar.<br>- *D.T9.Q4.4.L*<br>Cyn ysgol cyfrwng Cymraeg.<br>- *C.T3.Q4.8.L*<br>Mae 16+ ychydig yn hwyr i'w chyflwyno.<br><br>***Parhad dosbarthiadau:***<br>- *D.T1.Q4.7.L*<br>Dim ond wedi'i haddysgu yn y wers Gymraeg yn yr ysgol, ddim mewn gwersi eraill.<br>- *D.T6.Q4.10.L*<br>Mwy o amser yn ystod yr wythnos (mwy nag awr yr wythnos).<br>- *C.T3.Q4.15.L*<br>Mae angen mwy – nid yw awr yr wythnos yn ddigon.<br><br>***Cymorth gartref / cyffredinol:***<br>- *C.T2.Q4.12.L*<br>[*Safonau'r Gymraeg* ] Myfyrwyr Cymraeg nad yw eu rhieni yn siarad Cymraeg – mwy o gymorth i rieni – methu helpu â gwaith cartref.<br>- *C.T5.Q4.9.L*<br>Dylid cael mwy o gymorth neu gynnig mwy. Wedi gwneud i mi deimlo'n eithaf isel ar ôl canlyniadau yn yr ysgol. Roedd yn rhaid i mi ddarganfod fy ffordd fy hun.<br>- *D.T1.Q4.6.L*<br>Gwasanaeth gwefus i'r Gymraeg – ddim yn her mewn gwirionedd – siarad Saesneg gartref. Dylanwadau yn yr Almaen y tu allan i'r ysgol.<br>- *C.T5.Q4.2.L*<br>Pan symudais nid oedd neb wedi fy helpu i ddeall Cymraeg. | ***Ymgynghori:***<br>- *C.T9.Q4.14.L*<br>Dylid ymgynghori ymhellach pan fydd y Comisiwn yn gyflawn. |

*Allwedd ar gyfer cyfeirnod codio sylwadau: ● D/C (Digwyddiad Deganwy / Caerdydd) ● Tx (Rhif bwrdd) ● Qx (Rhif y cwestiwn) ● Z (Dynodydd y sylw) ● L/P (Dysgwr/ Gweithiwr proffesiynol)*

| Themâu | Safbwyntiau Dysgwyr | Safbwyntiau Gweithwyr Proffesiynol |
|---|---|---|
| **Gwella'r cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a manteisio ar y cyfleoedd hyn** | ***Cymorth gartref / cyffredinol:***<br>- *C.T9.Q4.11.L*<br>Byddai'n fuddiol pe bai Cymraeg yn cael ei siarad mewn mannau eraill.<br>- *C.T5.Q4.6.L*<br>Anodd dysgu Cymraeg yn yr ysgol; rwy'n ei siarad, ond ddim gartref.<br><br>***Safonau:***<br>- *D.T11.Q4.5.L*<br>Dylid pennu'r safonau a'u hadolygu.<br>- *C.T2.Q4.11.L*<br>Mae [*Safonau'r Gymraeg* ] yn cael gwared ar y stigma.<br>- *C.T3.Q4.12.L*<br>Hoffwn weld y Comisiwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'i waith.<br>- *C.T6.Q4.5.L*<br>Safonau newydd y Llywodraeth – annheg / dirwyon. Mae'n fwy anodd cyfathrebu os nad ydych yn siaradwr Cymraeg. Mae'n rhaid i ni anfon yr holl ddeunydd cyfathrebu i'w gyfieithu, mae'n cymryd amser. | |
| **Sylw aneglur / ddim yn siŵr sut i'w gategoreiddio at ddibenion gwerthuso** | - *C.T2.Q4.2.L*<br>Daeth yn orfodol flwyddyn ar ôl iddi adael.<br>- *C.T4.Q4.5.L*<br>Mae [*Cymraeg*] yn orfodol yn yr ysgol.<br>- *D.T6.Q4.13.L*<br>Gwybod mwy o Ffrangeg na Chymraeg – ddim yn dda.<br>- *D.T8.Q4.7.L*<br>Problem gyda nifer o bobl sy'n symud i Gymru o Loegr.<br>- *C.T5.Q4.1.L*<br>Mae'n beth naturiol siarad neu glywed Cymraeg.<br>- *C.T5.Q4.5.L*<br>Ni fyddai'n [*gweithio*] i mi'n bersonol. | |

# ATODIAD 7

## Trawsgrifiadau o sesiynau adborth gan y gynulleidfa yn y digwyddiadau

## Digwyddiad Deganwy – 4 Hydref 2017

### Iorwerth Griffiths – Llywodraeth Cymru

Un neu ddau beth ddaeth allan o’r sgwrs ddiwethaf yna, o’r bwrdd yma, oedd, mai’n bwysig iawn os oes darpariaeth Cymraeg bod hefyd yr adnoddau ar gael ar yr un pryd yn y Gymraeg. A hefyd mae’n bwysig iawn i’r Gomisiwn newydd osod safonau o ran darpariaeth Gymraeg ond hefyd sicrhau bod hynny’n digwydd. ‘Da ni’n cael esiamplau yn fan hyn o gyrsiau yn cael ei chynnig yn y Gymraeg ond wedyn pobl yn dweud ‘O well, medru ni ddim asesu fe yn y Gymraeg, chi dal yn siŵr eich bod chi eisiau ei gwneud o yn y Gymraeg?’ Felly mae rhaid neud yn siŵr bod yna safonau o be mai disgwyl i ddarparwyr ei gynnig. Ond hefyd, wedyn, ei bod yn cael ei arolygu rhyw ffordd neu’i gilydd i sicrhau bod o’n digwydd ar y llawr.

### Pennaeth y Chweched Dosbarth, Ysgol Uwchradd Prestatyn

“I mi, un o’r prif themâu a gododd, yn enwedig o’r cwestiwn cyntaf, oedd rhwystrau ariannol i addysg bellach a hefyd gael y wybodaeth gywir ar yr adeg gywir. Mae llawer o ‘gamwybodaeth’ am ddyledion myfyrwyr, felly mae angen iddyn nhw wybod y ffeithiau.”

### Anhysbys

“Roedd llawer o safbwyntiau gwych o amgylch y bwrdd hwn. Y drafodaeth a gawson ni oedd am gefnogi dewisiadau. Roedd y bobl ifanc ar ein bwrdd ni o’r farn ei bod hi’n bwysig ofnadwy cael gwybodaeth er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus, ond nid oedden nhw’n hollol siŵr mai’r Comisiwn fyddai’r lle na’r sefydliad gorau i wneud hynny – am na fyddai’n ddigon personol efallai.”

### Jack, Dysgwr

“Rwy’n credu mai prif bwynt ein tabl ni mewn gwirionedd oedd nad y Comisiwn, fwy na thebyg, fyddai’r lle gorau i gynghori pobl am ei fod yn sefydliad rhy fawr i gynghori cynifer o bobl, ac na fyddai’r wybodaeth a roddwyd yn ddigonol fwy na thebyg. Byddai’n rhaid i hynny gael ei wneud rywle arall siŵr o fod, lle y gellid ei wneud yn well. Byddai’n rhaid i chi roi’r trefniadau hynny ar waith mewn ysgolion neu awdurdodau addysg lleol. Fel Comisiwn, efallai fod angen iddo lywio ac arwain, ond nid cyfarwyddo o reidrwydd. Dylai hefyd ariannu, yn enwedig ardaloedd mwy difreintiedig Cymru.

**Jacob, Dysgwr**

“Gyrfa Cymru yw un o’r lleoedd gorau i fynd am wybodaeth yn fy marn i.”

**Anhysbys**

“Un o’r pethau allweddol a ddaeth allan o’n trafodaethau ni oedd y wybodaeth sy’n cael ei rhoi i bobl ifanc, ac roedd bron pawb yn cytuno y byddent yn hoffi ei chael yn llawer cynharach yn eu bywydau academaidd – felly ddim aros nes eu bod wedi gwneud eu dewisiadau. Roedden nhw’n teimlo, weithiau, mai TGAU yw’r ‘peth pwysicaf yn y byd’ a bod popeth yn dibynnu ar lwyddo neu fethu arholiadau, ond hoffen nhw wybod ei bod hi’n iawn ac i ddewis y rhai sy’n eich llywio – gyda llawer mwy o ddiddordeb yn yr unigolyn a llai o ffocws ar yr ystadegau cysylltiedig er mwyn iddynt fod yn wybodus a gwneud y dewisiadau cywir drostynt eu hunain.”

**Nick, Dysgwr**

“Credaf y byddai ymgysylltu â myfyrwyr yn ystod y flwyddyn – y gwasanaeth rydych yn ceisio ei ddarparu yn llawer pwysicach petai myfyrwyr yn rhan o’r ymchwil. Mae angen i ni wneud penderfyniad gwybodus am yr hyn rydym yn mynd i fod yn ei wneud yn y dyfodol. Mwy o ‘lais y dysgwr’.”

**Ellen, Llywydd UCM Cymru**

“Roedd cryn dipyn o’r trafod o amgylch y bwrdd hwn am barch cydradd rhwng astudiaethau galwedigaethol a’r brifysgol a bod prentisiaethau yn cael y llwybrau cywir yn ystod yr ysgol gan sicrhau eu bod mor uchel eu bri â’r brifysgol – oherwydd nid dyna’r lle gorau i fynd bob tro.”

**Anhysbys**

“Cawsom sgwrs ddiddorol iawn am brentisiaethau – am y wybodaeth mae pobl ifanc yn ei chael am lwybr gyrfa ymhen 5 neu 10 mlynedd, yn hytrach na dim ond ‘dyma’r gofyniad mynediad’ ond i ble yr ant hefyd. Byddai hynny’n ddefnyddiol iawn. “

**Anhysbys**

"Mae'n ymwneud â 'gwybodaeth gynnar'. Y dewisiadau mae pobl ifanc yn eu gwneud ym Mlwyddyn 9 wrth fynd ymlaen. Y bobl ifanc hyn sydd angen gwybod am brentisiaethau a hyfforddeiaethau. Dwi ddim yn credu eu bod nhw'n cael y wybodaeth yn ddigon cynnar. Rhaid ei bod ar gael iddyn nhw."

**Beth, Myfyriwr Coleg**

"Gallai siaradwyr gwadd o gwmnïau a sefydliadau fod yn ymweld ag ysgolion i siarad am y swyddi gwahanol sydd ar gael i fyfyrwyr, pan fyddant yn meddwl am eu llwybrau gyrfa. Efallai y gallai'r Comisiwn ariannu'r siaradwyr i wneud hynny."

**Ceri, Dysgu Oedolion Cymru**

"Gan ailadrodd y sylwadau blaenorol – efallai y gallai'r Comisiwn hwyluso pethau'n fwy. Fe siaradon ni am arweiniad mwy unigol a system fentora efallai. Efallai y gallai'r Comisiwn chwarae mwy o rôl o'r fath."

**Sophie, Dysgwr**

"Mae ein bwrdd ni wedi canolbwyntio cryn dipyn ar swyddi a beth rydym am ei wneud a pham. Rwyf am fod yn artist, ac yn fy marn i dylai eich gwaith eich gwneud chi'n hapus, heb i arian fod yn ffactor. Rhaid i chi fod yn hapus i gael eich swydd ddelfrydol."

## Digwyddiad Caerdydd – 12 Hydref 2017

### Martin Reed, Swyddog Gwasanaethau Dysgwyr, Dysgu Oedolion Cymru

“Un o’r pethau a gododd wrth i ni drafod o amgylch y bwrdd oedd pryderon am rai o’r pethau sydd wedi dod i ben, fel rhywfaint o’r cyngor gan Gyrfa Cymru sydd neu a oedd ar gael mewn ysgolion sydd wedi diflannu mae’n debyg, a hefyd yr anghysondeb ledled Cymru o ran yr hyn a allai gael ei ddarparu drwy gyngor ac arweiniad ysgolion a sgiliau athrawon i allu rhoi peth o’r cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr er mwyn camu ymlaen.”

### John Gates, Dysgwr

“Os yw hyn yn syniad mor dda, pam nad yw’n cael ei ailadrodd. Ry’n ni yma heddiw i roi ein barn, ond wedyn, bydd y Comisiwn yn diflannu ac mae hynny’n ofnadwy. Os ydyn ni’n ddigon da i leisio barn heddiw, yna dylech fod yn gwrando arnon ni ymhen 6 mis a 12 mis.”

### Hildegard Schindler, Dysgu Oedolion yn y Gymuned, Cyngor Sir Caerdydd

“Dysgwyr hen ac ifanc a ddylai gael eu holi am mai nhw sydd yno. Mae ganddyn nhw safbwyntiau da ac awgrymiadau da. Y Comisiwn ddylai fod yn cefnogi dysgwyr, ond dylai hyn hefyd ddechrau yn yr ysgol ar oedran cynnar. Gofynnodd un dysgwr “Pam nad ydw i’n cael cynghorydd yn 12/13 oed a allai fy nilyn drwy gydol fy ngyrfa? Yn electronig efallai? Gallai fod system o ryw fath?” O ran y Gymraeg, dylid gwahaniaethu rhwng ‘siaradwr Cymraeg naturiol’ neu ‘ddysgwr Cymraeg’. Codwyd cwestiwn hefyd ynglŷn â chymesuredd o ran cyllid.

### Karen Bennett. Rheolwr Addysg Oedolion yn y Gymuned, Blaenau Gwent

“Mae pobl ifanc, yn enwedig y rhai sy’n gadael yr ysgol, mewn sefyllfa lle, heb gael y canlyniadau roedden nhw’n gobeithio amdanynt, na allan nhw wneud y pethau maen nhw am eu gwneud – does dim llawer o gymorth ar gael. A hefyd, maen nhw’n dilyn cyrsiau sydd efallai’n anaddas iddyn nhw, na fydden nhw wedi’u dewis o gael cyngor gwell ac mae’n rhywbeth ry’n ni ym maes dysgu oedolion yn y gymuned yn ymwybodol ohono. Ry’n ni’n dod i gysylltiad â phobl sydd wedi cael profiadau felly, sydd 20 mlynedd yn ddiweddarach wedi bod allan o addysg pan ei bod hi’n fwy anodd i gael pobl yn ôl i addysg ar ôl 20 mlynedd nag yw i gadw pobl yno yn y lle cyntaf. Dylai’r Comisiwn fod yn trin hyn fel blaenoriaeth.”

**Siân Northey, Rhwydwaith Rhieni, Caerffili**

“Gyda Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben, mae pryder na fydd yr un cyfleoedd i ddilyn cyrsiau gwahanol, p’un ai’n gyrsiau strwythuredig neu’n gyrsiau anffurfiol.”

**Aqsa, Dysgwr, Severn Road**

“Os oedd rhywbeth a allai gwneud Dysgu Oedolion yn fwy hygyrch. Pan ddechreuais i, doedd gen i ddim syniad bod y fath fyd yn bodoli. Mae gen i blant yn yr ysgol, felly i mi y ffordd hawsaf o gael y rhieni fyddai trwy’r ysgolion. Petai gwahoddiad yn cael ei anfon neu bosteri yn cael eu rhoi i fyny, neu fod ffordd arall o godi ymwybyddiaeth bod canolfannau dysgu oedolion yn ein cymunedau, byddai hynny’n helpu pobl i sylweddoli bod cyfleusterau ar gael ar garreg y drws, y maen nhw’n cerdded heibio iddyn nhw bob dydd fwy na thebyg – dyna fy mhrofiad i ac rwy’n difaru na ddechreuais arni amser maith yn ôl a mynd yn ôl i addysg. Dim ond drwy’r Ganolfan Gwaith y cefais wybod ‘mae angen i chi wneud hyn a’r llall, ac mae’n rhaid i chi fynd fan hyn’. Mae angen i rieni fod yn fwy ymwybodol o ddysgu oedolion, oherwydd, os ydyn ni’n mynd â’n plant i’r ysgol bob dydd, mae’n lle mor dda i ddod i gysylltiad â rhieni a dweud wrthyn nhw am ddysgu oedolion. Mae’n gwella eich bywyd, eich iechyd, eich hyder, eich safonau byw, popeth – a gallwch ddatblygu i greu dyfodol gwell i chi’ch hun sy’n mynd i’ch helpu i roi dyfodol gwell i’ch plant hefyd.”

**Peter Alan, Dysgwr, Dysgu Bro, Llambed**

Fel Sais, y teimlad yw nad oes digon o ystyriaeth o’r Sais. Ystyriwch y Sais yn fwy os gwelwch yn dda!

**Jo Snaith, Llywodraeth Cymru**

“O ran Comisiwn Cymru, dylai olygu mwy na dim ond sicrhau ansawdd cyrsiau a chyfleoedd dysgu, ond hefyd rôl bwysig y darparwyr hyfforddiant wrth gynnig gofal bugeiliol, helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chael gwaith. Yn bendant, mae angen gwella’r gofal hwn ac iddo barhau, ac mae honno’n rôl y bydd angen i’r Comisiwn ei chwarae.

**Chris Prescott, Swyddog Addysg Gymunedol, Caerdydd**

“Dyma alw am Addysg Oedolion, oherwydd ry’n ni wedi trafod rhwystrau i addysg bellach ac addysg uwch. Peidiwch ag anghofio am ddysgwyr yn eu 40au, 50au a 60au. Mae ein cyllid o dan fygythiad bob blwyddyn. Bob blwyddyn, dy’n ni byth yn gwybod a gawn ni gyllid ai peidio. Mae’n anodd iawn cynnal rhaglenni a datblygu pobl a allai fynd ymlaen i’r coleg neu’r brifysgol yn y pen draw. Mae digon o oedolion yn dysgu yng Nghymru – felly peidiwch ag anghofio amdanon ni yn y trafodaethau hyn.”

### Anhysbys

“Yn unol â’r hyn a nodwyd yn gynharach am symleiddio pethau, byddai’n ddefnyddiol iawn i ddysgwyr gael llawer mwy o wybodaeth mewn un man – ar wefan neu rywbeth, fel bod set safonol o wybodaeth.”

# ATODIAD 8

## Ffurflenni'r digwyddiadau – sylwadau y mae'r rhai a fu'n bresennol am eu bwydo i mewn i'r ymgynghoriad

| D / C | Cyf | L / P | Trefniadaeth | Unrhyw sylwadau eraill i'w bwydo i mewn i'r ymgynghoriad? |
|---|---|---|---|---|
| D | 1 | L | | I helpu mewn unrhyw ffordd y gallant. |
| D | 4 | P | Hunangyflogedig | Dylid rhoi pwyslais ar yr hyn y mae'r myfyriwr unigol yn teimlo bod ei hangen. |
| D | 5 | L | Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Byddai'n ddefnyddiol hwyluso'r mathau hyn o ymgyngoriadau mewn perthynas â gweithredu polisi, gan gynnwys y cyhoedd. |
| D | 10 | L | Coleg Glannau Dyfrdwy – Llais y Myfyrwyr | Mae angen canolbwyntio ar y meysydd allweddol, sef llais y myfyrwyr a'u safbwyntiau!!!! |
| D | 14 | L | Coleg Cambria | Gwnewch yn siŵr nad hwn yw'r tro olaf eich bod yn ymgynghori â ni. |
| D | 22 | L | Ysgol Uwchradd Bodedern | Ehangu'n fwy ar bwriad a strategaethau yr ymgynghoriad. |
| D | 25 | L | Adult Education Wales | Rwyn teimlo bod hwn yn mynd i fod yn broses hir ac nid wyf yn obeithiol bydd llawer yn newid. Da cael rhywun o'r llywodraeth yn barod i wrando. |
| D | 26 | L | Y Sefydliad Plant | A gawn ein hysbysu ar adeg pob proses/adborth? A fydd yn agored i'w adolygu o bryd i'w gilydd oherwydd nid ydym yn mynd i gael pethau'n iawn y tro cyntaf. |
| D | 30 | L | | Hoffwn weld y Comisiwn yn datblygu'r cynogi a sonwyd yn y trafodaethau. |
| D | 35 | L | Ysgol Uwchradd Prestatyn | Dylid sicrhau bod y Comisiwn yn cyflawni'r hyn y mae'n anelu ato mewn gwirionedd. |
| D | 36 | L | Ysgol Uwchradd Prestatyn | Dylid sicrhau diffyg biwrocratiaeth – peidio â chyfyngu ar ddewis drwy orfodi myfyrwyr ac ati. |
| D | 40 | L | Airbus UK | Roedd cyllid ar gyfer mynd i'r brifysgol yn bwnc mawr. Mae angen i'r wybodaeth a roddir i'r ysgolion fod yn fwy clir a manwl mewn perthynas â chymwysterau ar gyfer astudio pellach. |
| D | 41 | L | Airbus UK | Dylid rhyngweithio â'r ysgolion yn fwy er mwyn sicrhau bod dull gweithredu a system gynghori fwy cyson i ddysgwyr ledled y wlad. |

| D / C | Cyf | L / P | Trefniadaeth | Unrhyw sylwadau eraill i'w bwydo i mewn i'r ymgynghoriad? |
|---|---|---|---|---|
| D | 42 | L | Airbus UK | Teimlaf nad yw prentisiaethau yn cael digon o gynrychioliaeth o bell ffordd a byddai'n wych gweld y Comisin yn mynd ati i helpu i dywys pobl tuag at addysg bellach. |
| D | 45 | L | Coleg Llandrillo | Rwyf yn falch iawn i mi ddod i'r digwyddiad hwn, gan fy mod bellach yn ymwybodol o rai o'r problemau a wynebir gan fyfyrwyr y gallaf, yn rhinwedd fel swydd fel Llywydd Undeb Myfyrwyr Coleg Llandrillo, helpu i'w datrys. |
| D | 46 | L | Airbus UK | Rwy'n credu y dylai'r Comisiwn sicrhau bod ysgolion yn rhoi mwy o wybodaeth a chymorth ynglŷn â phrentisiaethau yn hytrach na cheisio eu tywys i fynd i'r brifysgol. |
| D | 47 | L | Coleg Llandrillo | Dylai myfyrwyr gael mwy o gyfleoedd i leisio eu barn fel y digwyddiad hwn. Dylent wybod mwy am bynciau sy'n bwysig iddynt hwy a'u bywydau. |
| D | 48 | L | | Mae angen i fyfyrwyr gael mwy o wybodaeth am gyllid e.e. grantiau, dylai cludiant fod ar gael yn haws oherwydd gall cysylltiadau cymunedol fod yn rhwystr i addysg ôl-orfodol. Dylid sicrhau eich bod yn sylweddoli ym Mlwyddyn 9 fod eich cyrsiau yn effeithio ar eich dyfodol a dylid cynnig cyrsiau LINC i ysgolion uwchradd eraill. |
| D | 50 | L | Airbus UK | Digwyddiad da i gael gwybod beth yw barn pobl ifanc ar addysg a chyfleoedd swyddi. Hefyd, credaf y byddai mwy o wybodaeth am rolau swydd yn ddefnyddiol, megis pensiynau, cyflogau, llwyth waith, dilyniant. |
| D | 53 | L | Airbus UK | Dylid gweithredu'r Gymraeg yn gynharach. |
| D | 54 | L | Airbus UK | Dylid rhoi mwy o wybodaeth am brentisiaethau yn hytrach na gorfodi myfyrwyr i feddwl am fynd i'r brifysgol. Gall prentisiaethau hyd yn oed gynnig yr opsiwn gorau yn y byrdymor a'r hirdymor. Dylid rhoi darlun i'r myfyrwyr o'r ffordd y bydd eu dewisiadau yn effeithio ar eu bywydau yn y pum mlynedd nesaf – cyflog, ffordd o fyw ac ati. |
| D | 57 | L | | Dylai fod mwy o fanylion wrth ystyried llais y dysgwyr. |
| D | 61 | L | Ysgol Uwchradd y Rhyl | Roedd yn ddefnyddiol ac yn bendant bydd yn effeithio ar fywyd myfyrwyr. |
| D | 62 | L | North Wales Training | Mae wedi helpu llawer o fyfyrwyr a bydd yn helpu/effeitho ar eu bywydau yn yr hirdymor. |
| D | 70 | L | Coleg Llandrillo | Digwyddiad wedi'i drefnu'n dda iawn, amrywiaeth diddorol iawn o safbwyntiau. |

| D / C | Cyf | L / P | Trefniadaeth | Unrhyw sylwadau eraill i'w bwydo i mewn i'r ymgynghoriad? |
|---|---|---|---|---|
| D | 78 | P | GLLM | Dylid ystyried rolau/polisïau gwahanol AALlau ym mhob sir, hyd yn oed yn wahanol mewn meysydd fel cludiant. |
| D | 80 | P | Airbus UK | Dylai cyngor ar yrfaoedd gael ei roi gan Gynghorwyr arbenigol ar Yrfaoedd nid addysgwyr. |
| D | 81 | P | Ysgol Uwchradd y Rhyl | Dylid ystyried sut rydych yn bwriadu dilyn digwyddiad llais y disgyblion heddiw? Sut y byddwch yn gweithredu ar hyn ac adborth i bobl ifanc. Dylid gwahodd y bobl hyn i ddigwyddiad dilynol ar yr hyn a gaiff ei wneud, pam a sut. |
| D | 82 | P | Ysgol Uwchradd Prestatyn | Mae angen i Lywodraeth Cymru roi llawer mwy o bwyslais ar brentisiaethau lefel uwch. |
| D | 84 | P | ALW | Fy mhrif sylw oedd bod hwn yn ddigwyddiad gwironeddol ddefnyddiol i gael barn myfyrwyr chweched dosbarth a'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol. Nid oedd llais yr oedolyn yn amlwg mewn gwirionedd. Ni chafodd llais dysgwyr hŷn nad ydynt yn astudio ar gyfer L3 ac uwch ei glywed mewn gwirionedd. Roeddwn hefyd yn synnu'n fawr wrth nodi faint o bobl ifanc sydd â chyfrifoldebau gofalu. |
| D | 85 | P | Ysgol Bryn Gwalia | O ran eu rhagolygon, gorau po gyntaf y bydd plant yn ymddiddori mewn gyrfaoedd a byd gwaith. |
| D | 86 | | Prifysgol Glyndŵr | Adborth gwych gan y dysgwyr. Awgrymiadau gwych i ddarparu cyllid er mwyn i diwtoriaid ymweld ag ysgolion i rannu gwybodaeth gydag athrawon a dysgwyr. |
| D | 87 | P | | Dylid meddwl drwy'r amser am anghenion a dymuniadau'r dysgwyr – nhw yw ein dyfodol!! |
| D | 88 | P | Coleg Cambria | Roedd hwn yn ystyried mynd i mewn i gyflogaeth gan mwyaf, nid hunangyflogaeth – mae'n rhaid sicrhau bod cymorth i fod yn hungyflogedig ar gael mewn colegau a phrifysgolion. |
| C | 92 | L | Coleg Gwent - Pont-y-pŵl | Ar ôl gwrando ar eraill ar y bwrdd, credaf fod hysbysebu, cymorth ac anogaeth, cyllid a chymorth yn allweddol i bob dysgwr. Nid yw byth yn rhy hwyr i ddysgu a dylai'r cyfle hefyd fod yn ei le i ddysgwyr y dyfodol. |
| C | 93 | L | Dysgubro | Roedd y drafodaeth yn agored a gallai pawb ddweud ei ddweud a chodi materion y mae angen ymdrin â nhw. |

| D / C | Cyf | L / P | Trefniadaeth | Unrhyw sylwadau eraill i'w bwydo i mewn i'r ymgynghoriad? |
|---|---|---|---|---|
| C | 95 | L | Rhwydwaith Rhieni | Yn fy marn i, credaf fod angen gwneud rhagor mewn ysgolion i ddysgu sgiliau bywyd i ddisgyblion a'u haddysgu am addysg boed hynny'n ariannol. |
| C | 97 | L | Cyngor RhCT | Mae angen mwy o gyllid ar gyfer cynlluniau addysg uwch (graddau ac ati). Mwy o wybodaeth ar gael ar-lein. |
| C | 100 | L | | Hoffwn weld digwyddiadau tebyg, ymgynghori â myfyrwyr TAR Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol presennol o bosibl. |
| C | 102 | L | Dace, Prifysgol Abertawe | Hoffwn gymryd rhan mewn ymgyngoriadau eraill. |
| C | 110 | L | | Ni chredaf y dylai cyrsiau yn cael eu haddysgu yn Gymraeg fod yn flaenoriaeth ar hyn o bryd – yn lle hynny dylid rhoi mwy o gymorth ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol. |
| C | 114 | P | ACT Training | I mi, mae bwlch mawr o ran hyfforddiant athrawon a thiwtoriaid. Mae angen paratoi staff a sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth i roi cymorth cywir/ystyrlon i'w dysgwyr. Mae cyngor/arweiniad a gofal bugeiliol yn rhan enfawr o'n gwaith – mae angen mwy o gyllid a hyfforddiant. |
| C | 115 | L | Dysgwr, Severn Road | Ymwybyddiaeth o addysg i oedolion, efallai drwy bapurau newydd neu daflenni drwy flychau post. |
| C | 117 | L | | Dylai dysgwyr fod yn aelodau o'r Comisiwn. Gosodwyd y cwestiynau gan y sefydliad, roedd cwestiynau roeddem am eu gofyn. |
| C | 118 | L | Prifysgol Caerdydd | Dylai fod ddim hawl gyda Saeson rhoi barn am ddefnydd yr iaith Cymraeg heb unrhyw brofiad o'r iaith neu'r system yng Nghymru. Rwyf yn ymwybodol o'r ffaith fod nifer o bobl gymraeg yn pallu siarad yr iaith ond dylen ni cael y siawns i ddysgu yn ein iaith YNG NGHYMRU! Gormod ar y bwrdd am addysg yn Lloegr - heb adael i'r barn o rheini efo brofiad o'r addysg yng Nghymru. |

| D / C | Cyf | L / P | Trefniadaeth | Unrhyw sylwadau eraill i'w bwydo i mewn i'r ymgynghoriad? |
|---|---|---|---|---|
| C | 119 | L | Prifysgol Caerdydd | Dylai fod ddim hawl gyda saeson sydd heb unrhyw brofiad o'r iaith Gymraeg neu addysg trwy gyfrwng y gymraeg rhannu eu barn. Dw I'n siarad Cymraeg ac wedi synu gydag agwedd eraill heddiw. (Ymddiheuraf am refru a rhuo. Mae anwybodaeth eraill yn fy ngwylltio ychydig.) |
| C | 120 | L | Prifysgol Caerdydd | Teimlaf y dylai'r safbwytiau a godir yn y fath ddigwyddiadau gael eu pwysoli yn ôl gwerth a pherthnasedd - yn enwedig o ran materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg – mater iddyn nhw eu trafod a ninnau i wrando ydyw, mae'n rhaid, ac ni ddylai eu barn fod yn uwch na'n blaenoriaethau. Hefyd, teimlwyd bod rhai o'r cwestiynau/arolygon yn ceisio tywys, er mwyn cael yr ystadegau a ddymunwyd. Ond roedd yn ddiddorol yn bendant a gobeithio bod ein hallbwn yn ddefnyddiol. |
| C | 121 | L | Dace, Prifysgol Abertawe | Yn fy marn i, wrth i'r Comisiwn ddechrau ar y gwaith a rhoi strategaethau ar waith dylai fod rhagor o ymgynghori er mwyn sicrhau bod mewnbwn dysgwyr Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol wed cael ei ystyried a ph'un a oes angen rhagor o welliannau. Hefyd, efallai ystyried cysylltu â'r canolfannau allgymorth/dysgu o bell llai o faint. |
| C | 123 | L | Addysg Gymunedol i Oedolion Severn Road | Teimlaf yn chwilfrydig iawn am y canlyniad yn y pen draw. Gobeithio am ganlyniad llwyddiannus. |
| C | 124 | L | | Dylai gwybodaeth i bob dysgwr fod ar gael yn haws. |
| C | 127 | L | ACT Training | Fe wnes i fwynhau hwn ac rwy'n credu ei fod yn syniad gwych rhoi mwy o gymorth a ffocws ar y cyfan y mae'r digwyddiad hwn wedi'i ystyried. |
| C | 128 | L | ACT | Dylai ysgolion uwchradd sicrhau eich bod ar y llwybr rydych am ei ddilyn a gwarantu'r cwrs addysg bellach. |
| C | 129 | L | ACT Training | Gobeithio y gwrandawyd ar ein safbwyntiau |

| D / C | Cyf | L / P | Trefniadaeth | Unrhyw sylwadau eraill i'w bwydo i mewn i'r ymgynghoriad? |
|---|---|---|---|---|
| C | 130 | L | Aneurin Leisure | Roedd rhai o'r cwestiynau yn dangos tueddfryd ac yn eich tywys at ateb. Gormod o Gymraeg!! Nid wyf yn siarad Cymraeg ac nid oedd neb arall ar fy mwrdd. Roedd llais y cyfieithydd yn undonog ac yn anghlywadwy ac nid oedd ei angen mewn gwirionedd, yn fy marn i. |
| C | 131 | L | Aneurin Leisure | Roedd rhai cwestiynau'n ddall(?) Mae cyllid wedi lleihau opsiynau Dysgu Oedolion. |
| C | 137 | L | Coleg Caerdydd a'r Fro | Er bod un cwestiwn a oedd yn gofyn am drafod y gwahanol lwybrau ym maes addysg (cwestiwn 3), roeddwn yn teimlo bod gormod o ffocws o hyd ar AB/Dysgwyr sy'n oedolion yn dychwelyd i fyd addysg neu'n mynd i'r brifysgol. Beth am brentisiaethau? Mae angen parch cydradd gwirioneddol er mwyn i chi ddeall pa mor fuddiol yw prentisiaethau i bawb! |
| C | 141 | L | Coleg Caerdydd a'r Fro | Byddai'n haws i bob dysgwr pe bai'r holl wybodaeth yn yr un man. |
| C | 142 | L | Coleg Caerdydd a'r Fro | Mae angen iddynt wneud rhywbeth am e-diwtorialau. Os na fydd myfyrwyr yn gwneud e-diwtorialau yna cânt eu marcio'n absennol. |
| C | 145 | L | Coleg Gwent | A allwch sicrhau y bydd gwelliant i ddysgwyr o bob oedran? |
| C | 153 | P | Rhwydwaith Rhieni | Gwir angen sgiliau addysg a hyfforddiant ar bob lefel. Sgiliau meddal, achredu ar gyfer lles. Mwy o adnoddau i addysg ôl-16 i oedolion. |
| C | 155 | P | Community Learning | Peidiwch ag anghofio dysgwyr sy'n oedolion a rhoi adnoddau priodol iddynt. Nid yw dysgu yn dod i ben yn 25 oed. Dylid sicrhau bod prentisiaethau yn agored i ddysgwyr hŷn a'r rhai sy'n ystyried newid gyrfa. |
| C | 156 | P | | Gobeithio gweld digwyddiad tebyg yn cael ei gynnal eto o bryd i'w gilydd er mwyn asesu cynnydd. |
| C | 158 | P | Dysgu Oedolion yn y Gymuned Cyngor Caerdydd | Mae'r Comisiwn newydd i'w groesawu er mwyn darparu ar gyfer dysgwyr ifanc a dysgwyr sy'n oedolion. |

| D / C | Cyf | L / P | Trefniadaeth | Unrhyw sylwadau eraill i'w bwydo i mewn i'r ymgynghoriad? |
|---|---|---|---|---|
| C | 159 | P | Cyngor Caerdydd | Roedd yn anodd cynnwys dysgwyr iau a hŷn yn y drafodaeth weithiau. Mae eu hanghenion yn wahanol iawn. Efallai y gellid ystyried digwyddiad ar wahân i ddysgwyr sy'n oedolion. |
| C | 160 | P | | Mae angen ymwneud clir gan randdeiliaid partneriaeth yn ystod y broses o ddatblygu'r Comisiwn newydd. |
| C | 161 | P | People Plus Cymru | Ni ddylid gwneud i ddysgwyr DSW deimlo eu bod yn ddinasyddion ail ddosbarth a dylai darparwyr DSW gael eu gwahodd i bob digwyddiad ynghyd â'r prifysgolion ac ati. |
| C | 163 | P | ACT | Rwy'n credu bod angen system fwy agored a chanolog o'r hyn sydd ar gael, cyhyd â bod cyngor diduedd cadarn ar bob lefel. |
| C | 164 | P | Aneurin Leisure | Mewn rhai achosion, roedd y cwestiynau yn rhy gul – roedd angen opsiynau neu drafodaethau eraill. Ddim yn cytuno â'r cwestiwn o reidrwydd! |
| C | 165 | L | CITB | Mae cyngor ar yrfaoedd yn hanfodol ac ar hyn o bryd mae'n ystyried popeth. Mae angen cyngor ac arweiniad diduedd ar bob lefel. |
| C | 166 | P | | Teimlaf fod hwn wedi bod yn gyfle da i ddysgwyr fynegi barn. Rwy'n credu y dylem fod wedi cael mwy o amser i drafod pob cwestiwn – teimlo ei bod ychydig ar frys. |
| C | 167 | P | Cyngor RhCT | Dylid sicrhau bod rhaniad da o ddysgwyr er mwyn cael mewnbwn. |
| | | | | |
| **Allwedd** | | | | |
| D | Deganwy | | | |
| C | Caerdydd | | | |
| L | Dysgwr | | | |
| P | Gweithiwr proffesiynol | | | |